



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad: Crynodeb o'r Ymatebion

Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Papur Gwyn ar y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2014

Trosolwg

Ceir crynodeb yn y ddogfen hon o'r ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd.

Cynulleidfa

Awdurdodau Lleol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Tref a Chymuned, busnesau, sefydliadau yn y trydydd sector, cyrff academiaidd a chyrff cynrychiadol.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Bil yr Amgylchedd

Yr Is-adran Polisi Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: NaturalResourcesManagement@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tud. 2
- Trosolwg a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tud. 3-10
- Crynodeb o'r prif themâu	Tud. 11-13
- Dadansoddiad o'r ymatebion fesul cwestiwn	Tud. 14
2. Rheoli Adnoddau Naturiol	Tud. 15-23
3. Cyfoeth Naturiol Cymru—Ffyrdd newydd o weithio	Tud. 24-30
4. Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon	Tud. 31-41
5. Rheoli Doethach	Tud. 42-45
6. Gweithredu	Tud. 46-47

Atodiadau:

Atodiad 1: Rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad

Atodiad 2: Geirfa

Atodiad 3: Rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Atodiad 4: Mynegai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd ei lansio ar 23 Hydref 2013, a daeth i ben ar 15 Ionawr 2014. Cafodd yr ymgynghoriad am y Papur Gwyn ei anfon yn electronig at amrywiaeth eang o randdeiliaid ac roedd ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ionawr 2014, anfonodd Llywodraeth Cymru fwletinau yn cyfeirio at y Papur Gwyn at ryw 1,300 o randdeiliaid ac unigolion.
- 1.2 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl fynegi barn am amrywiaeth eang o gynigion, ac yn hoelio sylw'n benodol ar amcanion y Bil:
- galluogi Adnoddau Naturiol Cymru i reoli'n hadnoddau naturiol mewn modd mwy cydgysylltiedig;
 - sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yng nghyswllt ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'n heconomi a'n cymunedau, yn ogystal â'r amgylchedd;
 - symleiddio prosesau a sicrhau bod gennym dystiolaeth gwell ei hansawdd am ein hadnoddau naturiol;
 - cyflwyno deddfwriaeth sy'n briodol i Gymru ac sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau; a
 - sicrhau bod egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig yn rhan gwbl ganolog o'r Bil, gan sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth briodol i werth ein hecosystemau.
- 1.3 Mae'r ymgynghoriad am Fil yr Amgylchedd yn dilyn dau ymgynghoriad blaenorol ynghylch sut y dylem reoli'n hadnoddau naturiol, '*Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*¹' a'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd '*Cynnal Cymru Fyw*²'. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw'n dangos bod cefnogaeth gyffredinol i ddull cydgysylltiedig o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn 2012 yn ymgynghori am y posibiladau a'r cyfleoedd i symleiddio sut yr ydym yn rheoli'r amgylchedd, ac yn rheoleiddio mewn perthynas ag ef, a hynny er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru. Roedd y papur hwnnw'n ceisio barn hefyd ynghylch sut y gallem ddatblygu'r gwaith cynllunio sy'n cael ei wneud ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol ym maes rheoli adnoddau naturiol, fel y bo modd gwneud gwell penderfyniadau.
- 1.4 Cafodd yr ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd ei ddatblygu ymhellach yn y Papur Gwyn, pan aed ati i ymhelaethu ar y cynigion deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth o ran gwella'r modd y mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli drwy gyflwyno Bil yr Amgylchedd ar gyfer Cymru.
- 1.5 Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac i'r rheini a gynhaliwyd yn 2010 ac yn 2012, yn cael eu cadw. Maent yn ffynhonnell werthfawr o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau, a chânt eu defnyddio i lywio'n gwaith wrth inni fynd ati i ddatblygu mwy ar Fil yr Amgylchedd a'r rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol.

¹ <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?skip=1&lang=cy>

² <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?skip=1&lang=cy>

Trosolwg a Chrynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.6 Cafwyd cyfanswm o 182 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Ionawr 2013 ac rydym wedi cynnwys yr ymatebion a ddaeth i law ar ôl y dyddiad hwnnw.
- 1.7 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.
- 1.8 Ceir crynodeb o'r ymatebion isod, a nodir hefyd y themâu allweddol a'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg. Mae dadansoddiad manwl o bob cwestiwn unigol i'w weld ym mhenodau 2-6. Ceir rhestr yn Atodiad 1 o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac rydym wedi cyhoeddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgynghori i'w gweld yn Atodiad 2.
- 1.9 Gwelwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng safbwyntiau unigolion yng Nghymru a phobl y tu allan i Gymru. Mae'r dadansoddiad yn y tabl isod yn dangos o ba wledydd y daeth yr ymatebion.

Tabl (i) Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl gwledydd

Gwlad	Nifer yr ymatebion
Cymru	131
Lloegr	48
Yr Alban	1
UDA	1
Canada	1
Cyfanswm	182

1.10 Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y rhan fwyaf o'r 39 o brif gwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, a darparodd nifer ohonynt wybodaeth ategol am y prif faterion neu awgrymiadau ar sut y gellid datblygu mwy ar yr hyn sydd yn y papur.

1.11 Gofynnwyd i'r rheini a ymatebodd eu rhoi eu hunain mewn un o wyth categori bras. Mae Tabl (ii) yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl sector. Mae rhestr lawn o'r rheini a ymatebodd i'w gweld yn Atodiad 3. Caiff copiâu o'r ymatebion hynny nad ydynt yn rhai cyfrinachol eu cyhoeddi ar eu ffurf wreiddiol ac yn eu hiaith wreiddiol ar y tudalennau ymgynghori ar ein gwefan.

Tabl (ii): Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector

Categori	Nifer	% o'r cyfanswm
Y Trydydd Sector	35	19%
Awdurdodau Lleol / Cynghorau Tref a Chymuned	28	16%
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau Eraill yn y Sector Cyhoeddus	18	10%
Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol	48	26%
Y Cyhoedd	15	8%
Busnesau	31	17%
Cyrff Academaidd	6	3%
Eraill	1	1%
Cyfanswm	182	100%

1.12 Yn achos y cwestiynau hynny lle'r oedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl ateb ydw/nac ydw, gwnaed peth gwaith asesu sylfaenol ar nifer yr ymatebion, ac mae'r asesiadau hynny i'w gweld yn Nhabl (iii) isod. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau yn y tabl yn dangos yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, ond yn hytrach y rheini a roddodd yr ateb uniongyrchol 'ydw' neu 'nac ydw' i'r cwestiwn. Dewisodd rhai o'r ymatebwyr beidio â rhoi ateb uniongyrchol, gan gyflwyno sylwadau yn lle hynny. Hefyd, cyflwynodd llawer o'r rheini a ymatebodd sylwadau a safbwyntiau cyffredinol yn hytrach nag ymateb i'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad. Os oedd y sylwadau a'r safbwyntiau hynny yn ymwneud â'r materion yr ymdriniwyd â nhw mewn cwestiwn penodol, ac os oedd modd, cawsant eu cynnwys yn y dadansoddiadau o'r cwestiynau unigol sydd i'w gweld ym mhenodau 2-6. Gwnaed hynny hyd yn oed os na chawsant

eu cyflwyno fel atebion penodol i'r cwestiynau. Er hynny, ni chafodd y sylwadau hynny eu cyfrif fel ymateb uniongyrchol i'r cwestiwn ac o'r herwydd, ni chawsant eu cynnwys yng nghyfanswm yr ymatebwyr yn Nhabl (iii) isod.

Tabl (iii): Crynodeb o'r ymatebion 'ydw' a 'nac ydw'

PENNOD 2: RHEOLI ADNODDAU NATURIOL		
Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r pecyn cyfan o gynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol?		
Atebodd 87 o'r cyfanswm o 100 o ymatebwyr (87%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	66	76%
Nac ydw	21	24%
Cyfanswm	87	100%
Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r ffordd o ddiffinio adnoddau naturiol?		
Atebodd 87 o'r cyfanswm o 99 o ymatebwyr (88%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	73	84%
Nac ydw	14	33%
Cyfanswm	87	100%
Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys cynlluniau i wrthsefyll a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn ein dull integredig arfaethedig o reoli adnoddau naturiol?		
Atebodd 91 o'r cyfanswm o 100 o ymatebwyr (91%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	87	96%
Nac ydw	4	4%
Cyfanswm	91	100%
Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno y dylid dilyn cylch pum mlynedd ar gyfer pennu canlyniadau cenedlaethol a chamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, fel y nodir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol?		
Atebodd 76 o'r cyfanswm o 87 o ymatebwyr (87%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	69	91%
Nac ydw	7	9%
Cyfanswm	76	100%
Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno y bydd y dull rheoli ar sail ardal yn helpu i sicrhau dull o weithredu sy'n glir, yn fanwl ac sy'n dilyn blaenoriaethau?		
Atebodd 72 o'r cyfanswm o 115 o ymatebwyr (79%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	55	71%
Nac ydw	17	29%
Cyfanswm	72	100%
Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno bod y dull yn ddigon hyblyg i allu disodli elfennau arwyddocaol o'r cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol?		
Atebodd 57 o'r cyfanswm o 72 o ymatebwyr (79%) 'ydw' neu 'nac ydw'		
Ydw	40	70%
Nac ydw	17	30%
Cyfanswm	57	100%

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno â'r bwriad i osod gofyn ar gyrff cyhoeddus eraill i gydweithredu gyda'r dull rheoli ar sail ardal?

Atebodd 78 o'r cyfanswm o 90 o ymatebwyr (87%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	70	90%
Nac ydw	8	10%
Cyfanswm	78	100%

Cwestiwn 8 – A ydych yn cytuno y dylai CNC fod yn awdurdod adrodd arweiniol ar gyfer adnoddau naturiol?

Atebodd 84 o'r cyfanswm o 94 o ymatebwyr (89%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	81	96%
Nac ydw	3	4%
Cyfanswm	84	100%

PENNOD 3 – CYFOETH NATURIOL CYMRU CYFLEOEDD NEWYDD I GYFLAWNI

Cwestiwn 10 – A ydych yn cytuno â'r cynigion a ddisgrifir ym mhennod 3 ynghylch ffyrdd newydd o weithio ar gyfer CNC?

Atebodd 60 o'r cyfanswm o 76 o ymatebwyr (79%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	48	80%
Nac ydw	12	20%
Cyfanswm	60	100%

Cwestiwn 12 – A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff priodol i fod yn hwyluswyr, yn frocerwyr ac yn achredwyr mewn Cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau?

Atebodd 60 o'r cyfanswm o 77 o ymatebwyr (78%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	39	65%
Nac ydw	21	35%
Cyfanswm	60	100%

Cwestiwn 15 – Gyda golwg ar bŵer diwygio Gweinidogion Cymru, a ydych yn cefnogi: a) y cynnig cyntaf i'w gyfyngu i swyddogaethau CNC, neu b) y cynnig ychwanegol i gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ehangach?

Dewisodd 38 o'r cyfanswm o 55 o ymatebwyr (69%) opsiwn 'A' neu opsiwn 'B'

A	21	55%
B	17	45%
Cyfanswm	38	100%

PENNOD 4: DEFNYDDIO ADNODDAU’N EFFEITHLON
Rheoliadau ar Wahanu a Chasglu Gwastraff ac
ar Fagiau Siopa

Cwestiwn 18 – A ydych yn cytuno â’r cynigion ym mhennod 4 a’r ffordd o gyfuno’r pum mesur?

Atebodd 61 o’r cyfanswm o 75 o ymatebwyr (81%) ‘ydw’ neu ‘nac ydw’

Ydw	41	68%
Nac ydw	20	32%
Cyfanswm	61	100%

Cwestiwn 19 – A ydych yn cytuno bod lefel y gwahanu y gofynnir i unigolion / busnesau ei gyflawni yn dderbyniol?

Atebodd 52 o’r cyfanswm o 74 o ymatebwyr (70%) ‘ydw’ neu ‘nac ydw’

Ydw	30	58%
Nac ydw	22	42%
Cyfanswm	52	100%

Cwestiwn 20 – A oes busnesau o fath neu faint penodol lle na fyddai’n ymarferol, o safbwynt technegol, amgylcheddol neu economaidd, i gadw’r saith ffrwd wastraff ar wahân yn y ffynhonnell?

Atebodd 49 o’r cyfanswm o 64 o ymatebwyr (77%) ‘oes’ neu ‘nac oes’

Oes	38	78%
Nac oes	11	22%
Cyfanswm	49	100%

Cwestiwn 21 – A ydych yn cytuno â’r rhestr o ddeunyddiau yr ydym yn cynnig eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi?

Atebodd 59 o’r cyfanswm o 69 o ymatebwyr (86%) ‘ydw’ neu ‘nac ydw’

Ydw	41	70%
Nac ydw	18	30%
Cyfanswm	59	100%

Cwestiwn 22 – A ydych yn cytuno ei bod yn ymarferol datblygu canllawiau ar lefelau halogi sy’n dderbyniol mewn gwastraff gweddilliol ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi/llosgi a’r rheoleiddiwr?

Atebodd 50 o’r cyfanswm o 60 o ymatebwyr (83%) ‘ydw’ neu ‘nac ydw’

Ydw	38	76%
Nac ydw	12	24%
Cyfanswm	50	100%

Cwestiwn 23 – A ydych yn cytuno bod angen gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd?

Atebodd 54 o'r cyfanswm o 61 o ymatebwyr (89%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	41	76%
Nac ydw	13	24%
Cyfanswm	54	100%

Cwestiwn 25 – A ydych yn cytuno bod y cyfnodau cyn gweithredu'r cynigion yn rhesymol?

Atebodd 39 o'r cyfanswm o 49 o ymatebwyr (80%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	22	56%
Nac ydw	17	44%
Cyfanswm	39	100%

Cwestiwn26 - A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff gorau i reoleiddio'r ddyletswydd i ddidoli gwastraff?

Atebodd 43 o'r cyfanswm o 52 o ymatebwyr (83%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	39	91%
Nac ydw	4	9%
Cyfanswm	43	100%

Cwestiwn 29 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ddarparu ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiâu siopa?

Atebodd 47 o'r cyfanswm o 58 o ymatebwyr (81%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	39	83%
Nac ydw	8	17%
Cyfanswm	47	100%

Cwestiwn 30 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ei gwneud yn ofynnol fod manwerthwyr yn trosglwyddo eu helw net i unrhyw achosion da?

Atebodd 50 o'r cyfanswm o 56 o ymatebwyr (89%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	33	78%
Nac ydw	17	22%
Cyfanswm	50	100%

PENNOD 5: HWYLUSO RHEOLI DOETHACH

Cwestiwn 32 – A ydych yn cytuno â'r cynigion ynghylch Trwyddedu Morol?

Atebodd 25 o'r cyfanswm o 32 o ymatebwyr (78%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	22	88%
Nac ydw	3	12%
Cyfanswm	25	100%

Cwestiwn 35 – A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn?

Atebodd 16 o'r cyfanswm o 19 o ymatebwyr (84%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	14	88%
Nac ydw	2	12%
Cyfanswm	16	100%

Cwestiwn 36 – A oes unrhyw newidiadau eraill yn system y Gorchymyn Pysgodfa Unigol a'r Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa y dylid eu hystyried?

Atebodd 5 o'r cyfanswm o 8 o ymatebwyr (63%) 'oes' neu 'nac oes'

Oes	3	60%
Nac oes	2	40%
Cyfanswm	5	100%

Cwestiwn 38 – A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 29 o Ddeddf Draenio Tir (1991)?

Atebodd 24 o'r cyfanswm o 25 o ymatebwyr (96%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	24	100%
Nac ydw	0	0
Cyfanswm	24	100%

Cwestiwn 39 – A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 47 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)?

Atebodd 24 o'r cyfanswm o 26 o ymatebwyr (92%) 'ydw' neu 'nac ydw'

Ydw	22	92%
Nac ydw	2	8%
Cyfanswm	24	100%

Crynodeb o'r prif themâu

1.13 Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion ysgrifenedig i bob cwestiwn. Adlewyrchir y themâu hynny yn y crynodebau ar gyfer pob un o'r cwestiynau, fel y'u nodir ym mhenodau 2-6.

Y Cynigion yn ymwneud â Rheoli Adnoddau Naturiol

1.14 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r pecyn o gynigion yn ymwneud â Rheoli Adnoddau Naturiol. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen manylu mwy ar sut y bydd y dull ar sail ardal yn cael ei weithredu, a thynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn bwysig cydnabod gwerth y ddeddfwriaeth amgylcheddol sydd eisoes yn bod. Roedd y rhai a ymatebodd yn croesawu'r cynigion i gyflwyno diffiniadau cyfreithiol clir, er bod rhai yn teimlo bod angen rhoi mwy o bwyslais ar elfennau fel bioamrywiaeth, gwella a gwarchod, terfynau amgylcheddol a'r egwyddor ragofalus. Ymhlith rhai o'r awgrymiadau eraill oedd rhoi mwy o bwyslais ar dirweddau a morweddau, ac ar yr amgylchedd hanesyddol a daeareg.

1.15 Roedd y rhai a ymatebodd o blaid pennu Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ac yn cytuno hefyd â phennu cyfeiriad lefel uchel. Tynnwyd sylw at yr angen i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac at bwysigrwydd casglu a rhannu data, ond roedd pryderon hefyd ynghylch adnoddau a'r baich posibl ar gyrrff cyhoeddus a'r trydydd sector.

1.16 Roedd cryn gefnogaeth i'r mesurau ar gyfer meithrin gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy wneud y mesurau hynny'n rhan annatod o'r gwaith a wneir ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol i reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig. Nododd nifer o'r rhai a ymatebodd fod cyfle, o bosibl, i gynnwys yn y Bil dargedau statudol o ran y newid yn yr hinsawdd.

1.17 Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid defnyddio dalgylchoedd afonydd yn sail i'r dull ar sail ardal, ond roedd bron yr un nifer yn argymhell gofal yn hynny o beth. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r angen i sicrhau bod y dull a fabwysiedir yn cyd-fynd yn agos â'r Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Cynlluniau Integredig Sengl.

Cyfoeth Naturiol Cymru – ffyrdd newydd o weithio

1.18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r pecyn cyffredinol o gynigion a fyddai'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Teimlai rhai ohonynt fod angen manylu mwy ar sut y bydd y cynigion hynny'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, yn enwedig o ran taliadau am wasanaethau ecosystemau a rheolau rhwymo cyffredinol. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai pwerau arbrofol fod o fudd o ran gweithredu mewn ffyrdd arloesol, a theimlai llawer ohonynt y gallai talu am wasanaethau ecosystemau fod yn gyfle i wobrwyo pobl am reoli tir mewn modd cadarnhaol. Er hynny, roedd pryderon yn ymwneud â'r angen i warchod rhywogaethau neu gynefinoedd unigryw, yn hytrach na bod diogelu bioamrywiaeth yn cael ei

ystyried yn ased i'w farchnata. Mynegwyd peth pryder am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran 'broceru' cynlluniau TWE (Talu am Wasanaethau Ecosystemau).

- 1.19 Roedd peth cefnogaeth i'r cynnig i roi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru. Er hynny, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr a oedd o blaid cyfyngu'r pŵer diwygio i swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru mai da o beth fyddai edrych ar yr hyn y gellid ei gyflawni drwy'r pwerau sydd gan y corff hwnnw eisoes cyn ceisio ehangu'r pwerau hynny. O ran y rheini a oedd o blaid pŵer diwygio a fyddai'n cynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, eu hawgrym nhw oedd y byddai hynny'n rhoi'r hyblygrwydd i fedru ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig i heriau yn y dyfodol. Un o'r pryderon cyffredin oedd y byddai diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth yn gallu golygu na fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael cyfle i graffu'n ddigon manwl ar y cynigion ac na fyddai cyfle ychwaith i ymgynghori â'r cyhoedd.

Effaith y cynigion sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol

- 1.20 Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r goblygiadau o ran adnoddau a chyllid a fyddai'n dod i'r amlwg yn y tymor byr i'r tymor canolig yn sgil mwy o gydweithio a'r dull o weithredu ar sail ardal. Roeddent yn cydnabod, serch hynny, y byddai arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau yn y tymor hir. Tynnwyd sylw at yr angen i gynnal Asesiad trwyadl a chadarn o Effaith Rheoleiddiol er mwyn ystyried pa effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar sefydliadau ledled Cymru. At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i roi mwy o rôl i CNC o ran sbarduno'r defnydd o fecanweithiau'r farchnad. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at effaith y cynigion, at y cysylltiadau â'r rhaglen deddfwriaethol ehangach – Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol – ac at yr angen i integreiddio'n agos â chynlluniau defnydd tir, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl.

Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

- 1.21 Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cynigion yn ymwneud â gwastraff, ac roedd y mwyafrif o blaid y pecyn cyffredinol o gynigion. Un o'r themâu allweddol oedd y dylid caniatáu rhywfaint o gymysgu gwastraff ailgylchadwy. Mae'n bosibl bod hynny'n dibynnu ar faterion megis faint o le addas sydd ar gael er mwyn storio gwastraff neu faint o wastraff sy'n cael ei greu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch pa mor ymarferol fyddai'r cynigion o ran cost ac o ran eu gweithredu a'u gorfodi, ac awgrymwyd y gallai'r cynigion arwain at fwy o gostau i fusnesau neu at yr angen am fwy o le, er na roddwyd unrhyw ffigurau yn hynny o beth. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r deunyddiau yr oedd bwriad i'w gwahardd o safleoedd tirlenwi neu o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni. Y pryder mwyaf cyffredin oedd sut y byddai modd gorfodi unrhyw waharddiad. At ei gilydd, y teimlad oedd y dylid cynnal rhagor o ddadansoddiadau cost a budd er mwyn asesu'r effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar y sefydliadau dan sylw.
- 1.22 O ran y cynnig i wahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i fusnesau,

i'r sector cyhoeddus ac i aelwydydd. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod ganddynt bryderon ynghylch rheoleiddio a gorfodi gwaharddiad o'r fath, yn enwedig mewn perthynas ag aelwydydd. Dywedodd nifer ohonynt y byddai angen cynnig cymorth i bobl, eu haddysgu a chynnal gweithgareddau newid ymddygiad i gyd-fynd â'r cynigion.

- 1.23 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r ddau gynnig yn ymwneud â newid y cynllun codi tâl am fagiau siopa. Roedd rhywfaint o bryder ymhlith cymdeithasau manwerthu ac awdurdodau lleol am y baich ychwanegol o ran costau a allai ddod i'r amlwg pe bai tâl isaf yn cael ei godi am fagiau am oes. Roedd rhai sefydliadau o'r farn y dylai'r elw net a wneir drwy godi tâl am fagiau siopa fynd i elusennau amgylcheddol yn unig, ond roedd croeso ymhlith busnesau a chyrrff ac asiantaethau proffesiynol i'r bwriad i barhau i ganiatáu i fusnesau roi'r elw net i unrhyw elusennau.

Rheoli Doethach

- 1.24 Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion yn ymwneud â thrwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd cregyn, draenio tir a rheoli llifogydd a dŵr.
- 1.25 Ymhlith rhai o'r sylwadau penodol a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr i'r bennod hon oedd yr angen i bwysleisio pa mor bwysig fyddai sicrhau bod unrhyw ffioedd a godir am drwyddedu morol yn cael eu hadlewyrchu yn safon y system drwyddedu morol, a hefyd yn y ffaith bod y system honno'n cael ei rhoi ar waith mewn ffordd gyson. Er mwyn sicrhau bod y cynnig hwn yn gweithio, awgrymodd yr ymatebwyr y bydd yn rhaid i'r rheoleiddiwr drefnu bod digon o adnoddau ac arbenigedd ar gael er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mynegwyd pryderon hefyd am yr effaith bosibl ar fusnesau bach ac ar weithgareddau ar raddfa fach.
- 1.26 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn croesawu'r cynnig yn ymwneud â physgodfeydd cregyn oherwydd y byddai mwy o gamau gorfodi yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â gweithgareddau niweidiol na fyddent yn cydymffurfio â'r gofynion. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon am effaith y cynigion ar y diwydiant pysgod cregyn. Roeddent yn teimlo y gallai'r newidiadau arwain at lai o fuddsoddiad mewn pysgodfeydd cregyn oherwydd y byddai pobl yn fwy ofnus ynghylch diogelwch deiliadaeth. Er hynny, nodwyd hefyd y byddai'r cynnig i gyflwyno cynlluniau rheoli gorfodadwy ochr yn ochr â'r gorchmynion pysgodfeydd yn golygu y byddai'r broses o wneud cais am Orchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfeydd yn un fwy cadarn a thryloyw.

Y camau nesaf

- 1.27 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r trafodaethau yn y gweithdai ymgynghori (gweler atodiad 3 am ragor o fanylion) yn llywio'r gwaith o ddatblygu Bil yr Amgylchedd, y bwriedir ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngwanwyn 2015.

Dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn unigol

- 2.1 Ceir dadansoddiad yn y penodau a ganlyn o'r ymatebion i bob cwestiwn unigol. Maent yn cyd-fynd â'r penodau yn y Papur Gwyn. Fel yr amlinellir ym mhennod 1, lle'r oedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl ateb ydw/nac ydw, gwnaed peth gwaith asesu sylfaenol ar nifer yr ymatebion, ac mae'r asesiadau hynny i'w gweld isod. Dylid cofio nad yw'r ffigurau'n dangos yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, ond yn hytrach y rheini a roddodd yr ateb uniongyrchol 'ydw' neu 'nac ydw' i'r cwestiynau (fel yr amlinellir yn Nhabl ii). Dewisodd rhai o'r ymatebwyr beidio â rhoi ateb uniongyrchol, gan gyflwyno sylwadau yn lle hynny. Pryd bynnag y bo modd, os oedd y sylwadau a'r safbwyntiau hynny yn ymwneud â'r materion yr oedd cwestiwn penodol yn ymdrin â nhw, fe'u cynhwyswyd yn y dadansoddiadau o'r cwestiynau unigol. Gwnaed hynny hyd yn oed os na chawsant eu cyflwyno fel atebion penodol i'r cwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gofyn i'r ymatebwyr ymhelaethu; felly mae llawer o'r dadansoddiadau a ganlyn yn rhai ansoddol.

Pennod 2: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r pecyn cyfan o gynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a ddisgrifir ym Mhennod 2?

- 2.2 Roedd 66 o'r ymatebwyr (76% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r pecyn cyffredinol o gynigion. Ar y cyfan, roedd y rhai a ymatebodd yn cytuno â'r pecyn o gynigion, ac roeddent yn teimlo y byddai'r pecyn hwnnw'n cynnig fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig. Teimlai rhai ohonynt fod angen manylu mwy ar sut y bydd y dull arfaethedig yn cael ei roi ar waith. Teimlai rhai o'r ymatebwyr hefyd nad oes digon o gydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i werth y ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n bodoli eisoes nac i'r dulliau presennol o sbarduno gwaith cadwraethol a gwaith diogelu.
- 2.3 Roeddent yn croesawu'r cynnig i gyflwyno diffiniadau cyfreithiol clir, ac yn rhoi croeso penodol i'r bwriad i ddiffinio adnoddau naturiol. Pwysleisiwyd y dylai'r diffiniad hwnnw fod yn un digon eang i gynnwys rhywogaethau, cynefinoedd, tirweddau, daeareg ac ecosystemau morol. Roedd rhai'n teimlo bod y diffiniadau'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau naturiol a'u bod wedi hepgor elfennau megis gwarchod natur, terfynau amgylcheddol, tirweddau gwarchodedig ac amgylcheddau hanesyddol.
- 2.4 Roedd llawer yn croesawu'r bwriad i gyflwyno Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ac i bennu cyfeiriad lefel uchel ar gyfer polisiâu ond roeddent yn teimlo y dylid bod yn hyblyg yn hyn o beth. Nododd rhai fod yr amseriadau fel y maent ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd y dull ar sail ardal yn cael ei roi ar waith cyn i'r polisi cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol gael ei greu yn 2017/18.
- 2.5 Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r dull ar sail ardal yn helpu i sicrhau y byddai gwaith cynllunio yn cael ei wneud mewn ffordd integredig. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o eglurhad ynghylch sut y byddai ardaloedd yn cael eu diffinio, eu ffurfio a'u rheoli, a hefyd ynghylch y berthynas rhwng y dull hwn a mathau eraill o gynlluniau megis Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol a Chynlluniau Rheoli Morol.
- 2.6 Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r angen i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hefyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd casglu a rhannu data, ond roedd pryderon hefyd yn ymwneud ag adnoddau a'r baich posibl ar gyfrff cyhoeddus a'r trydydd sector.
- 2.7 Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio egwyddorion y dull datblygu cynaliadwy wrth reoli adnoddau naturiol, gan ofyn sut y gellid mynd ati i flaenoriaethu'r tair elfen ac i sicrhau cydbwysedd rhyngddynt, a beth fyddai'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r ffordd o ddiffinio adnoddau naturiol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru?

- 2.8 Roedd 73 o'r ymatebwyr (84% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Ar y cyfan, roeddent o blaid pennu diffiniad cyfreithiol ar gyfer adnoddau naturiol Cymru, ac yn cytuno y dylai'r diffiniad hwnnw gynnwys pob amgylchedd ffisegol a phob amgylchedd byw, yn ogystal â'r holl adnoddau a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu. Nododd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r diffiniad gwmpasu mwy na dim ond defnyddio adnoddau er mwyn elwa'n economaidd.
- 2.9 Un o'r themâu cyson oedd yr angen i roi mwy o bwyslais ar wella, ar ddiogelu ac ar stiwardiaeth gyfrifol. Ochr yn ochr â hynny, nododd rhai o'r ymatebwyr yr angen i sicrhau mai bioamrywiaeth sydd wrth wraidd y diffiniad, a hynny er mwyn cydnabod y gwerth cynhenid sydd mewn ecosystemau bioamrywiol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gellid seilio'r diffiniad hwn yn fwy pendant ar Ddeddf Rheoli Adnoddau Naturiol De Awstralia (2004), sy'n cydnabod gwerth cynhenid adnoddau naturiol.
- 2.10 Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y syniad o fyw o fewn terfynau amgylcheddol ac at yr angen i'r diffiniadau ddeillio o Fil Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at weledigaeth lle byddai ecosystemau iach a chadarn yn cael eu creu ar gyfer y genhedlaeth bresennol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn iddynt fedru byw o fewn terfynau amgylcheddol. Roedd nifer o sylwadau am yr angen i gyfeirio at yr egwyddor ragofalus.
- 2.11 Tynnodd ychydig o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai'r cyfeiriad at '...ddarparu ar gyfer eu **lles** cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol' yn y diffiniad o reoli amgylcheddol gael ei gamddehongli fel pe bai'n cyfeirio at les pobl yn unig. Awgrymwyd y gallai 'angen' fod yn derm mwy priodol.
- 2.12 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod tirweddau'n elfen allweddol o'n hadnoddau naturiol, ac yn nodi y dylai'r diffiniad adlewyrchu eu gwerth diwylliannol. Awgrymwyd y dylid hefyd gyfeirio'n benodol at forweddau. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i'r diffiniadau gydnabod bod yr amgylchedd hanesyddol yn rhan o'r amgylchedd anfyw, sy'n gyfrwng i ffurfio ecosystemau, a'i fod hefyd yn wasanaeth cefnogol a diwylliannol. Yn olaf, nododd nifer o'r ymatebwyr y cyfraniad y mae'r geosffer (neu 'geoamrywiaeth' fel y'i gelwir yn aml) yn ei wneud o ran darparu gwasanaethau ecosystemau.
- 2.13 Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid cynnwys materion megis ynni yn y diffiniad, a gofynnodd nifer ohonynt am eglurhad ynghylch pam yr oedd adnoddau mwynau wedi'u cynnwys. Gofynnodd eraill pam yr oedd cynhyrchu bwyd wedi'i gynnwys. Pwynt ychwanegol a wnaed oedd y dylai'r diffiniad o reoli cynaliadwy gyfeirio'n benodol at y Gymraeg.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid cynnwys cynlluniau i wrthsefyll a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dull rheoli adnoddau naturiol yn integredig ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol?

- 2.14 Roedd 87 o ymatebwyr (96% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r awgrym y dylai camau i feithrin gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd fod yn rhan annatod o'r gwaith a wneir ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol i reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gellir rhoi hynny ar waith yn ymarferol.
- 2.15 Cydnabuwyd bod y newid yn yr hinsawdd yn fater sylfaenol sydd o'r pwys mwyaf, a bod ei effeithiau'n cael eu teimlo'n lleol ac yn genedlaethol. O'r herwydd, dylid gweithredu yn ei gylch ar bob lefel. Nodwyd ei bod yn bosibl y bydd angen i bob ardal unigol ymateb mewn ffyrdd gwahanol i'r heriau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, a hynny am fod tirweddau, cynefinoedd a chymunedau yn amrywio. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr mai un o'r tasgau allweddol yw sicrhau bod tirweddau trefol a gwledig yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, er mwyn dygymod â thywydd eithafol.
- 2.16 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod cyfle i gynnwys targedau statudol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, a chyfeiriwyd at yr Alban fel enghraifft dda o weinyddiaeth sy'n cyfuno nifer o ddulliau ysgogi, gan gynnwys deddfwriaeth, i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Awgrymodd un neu ddau ohonynt fod y Bil yn gyfle i adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar fesurau ymaddasu. Dywedodd eraill y dylai'r polisi Cenedlaethol arfaethedig ar Adnoddau Naturiol nodi'r cysylltiadau â'r Cynlluniau Ymaddasu Sectorol a thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau.
- 2.17 Nododd rhai o'r ymatebwyr fod yn rhaid integreiddio camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd â meysydd eraill, megis ynni adnewyddadwy, neu reoli mawndiroedd er mwyn dal a storio carbon. Cyfeiriwyd at yr angen i ystyried effeithiau mesurau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, megis tyrbinau gwynt, ar ecosystemau ehangach.
- 2.18 Yn olaf, nodwyd y byddai cylchoedd adrodd hirach a'r angen i hoelio sylw ar ganlyniadau hirdymor yn bwysig o ran, er enghraifft, monitro effeithiau mesurau ymaddasu.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid dilyn cylch pum mlynedd ar gyfer pennu canlyniadau cenedlaethol a chamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, fel y nodir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol?

- 2.19 Roedd 69 o'r ymatebwyr (91% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o sicrhau bod y ddwy broses hyn yn cyd-fynd â'i gilydd. Ymhlith y rhesymau a roddwyd oedd y cyfle i sicrhau y byddai'r cylch pum mlynedd yn cyd-daro ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a blaenoriaethau Llywodraeth newydd, a'r cyfle i integreiddio'n well ar draws y sector cyhoeddus. Nododd yr ymatebwyr y byddai trefnu bod y prosesau hynny'n cyd-fynd â'i gilydd yn gyfle i sicrhau y byddai prosesau cynllunio yn digwydd ar yr un pryd, ac y byddai hynny, yn ôl pob tebyg, yn esgor ar fanteision. Dywedodd nifer y byddai gweithredu yn y fath fodd yn creu sefydlogrwydd ac y byddai hynny o fudd, oherwydd y byddai sefydliadau sy'n bartneriaid a chyrff cyflawni wedyn yn gallu disgwyl eglurder o ran amcanion am gyfnod o bum mlynedd.
- 2.20 Nododd ymatebwyr eraill na fyddai mabwysiadu dull gweithredu o'r fath yn caniatáu digon o hyblygrwydd i sicrhau y byddai adnoddau ar gael i ymdopi â materion neu bwysau a fyddai'n dod i'r amlwg yn ystod y cylch pum mlynedd. Mynegwyd pryderon nad oedd digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i sefydlu cynlluniau ar fyrder, o ystyried y pwysau sydd ar yr amgylchedd ar hyn o bryd. Tynnodd eraill sylw at yr angen i'r broses pennu blaenoriaethau fod yn un hyblyg, a hynny fel y bo modd gwneud newidiadau yn ystod y cyfnod hwnnw pe bai angen.
- 2.21 Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw prosesau naturiol yn dilyn cylch pum mlynedd. O'r herwydd, dylid pennu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau naturiol dros gyfnod hirach. Er nad oedd, o reidrwydd, yn feirniadaeth o'r egwyddor o bennu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau naturiol yng nghyd-destun y nodau cenedlaethol ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd y rheini a oedd o'r farn hon yn teimlo y dylai blaenoriaethau lefel uchel fod, drwy ddiffiniad, yn rhai hirdymor, a fyddai, efallai, yn cael eu hategu drwy hoelio sylw ar dargedau mwy penodol dros gyfnod o 5 mlynedd.
- 2.22 Ymhlith rhai o'r sylwadau eraill oedd y byddai angen i awdurdodau cynllunio gael eu hintegreiddio'n llawn â'r broses. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a ddylid gosod dyletswydd gyfreithiol i sicrhau canlyniadau o ran adnoddau naturiol, a gofynnodd eraill sut y bydd y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn cyd-fynd â chynlluniau, ymrwymadau a thargedau sy'n bodoli eisoes, megis Cynlluniau Datblygu Lleol a thargedau o ran bioamrywiaeth.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y bydd y dull rheoli ar sail ardal yn helpu i sicrhau dull o weithredu sy'n glir, yn fanwl ac sy'n dilyn blaenoriaethau?

- 2.23 Roedd 55 o'r ymatebwyr (71% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Ar y cyfan, roedd y rhai a ymatebodd yn cytuno bod mabwysiadu 'dull ar sail ardal' yn beth doeth ac roeddent o'r farn na fyddai'n briodol defnyddio'n union yr un model ar draws Cymru gyfan. Byddai mabwysiadu dull o'r fath yn golygu y byddai modd ystyried y gwahaniaethau rhwng amryfal ardaloedd. Y prif fater a godwyd oedd yr angen am ragor o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r dull hwnnw'n gweithio'n ymarferol, er enghraifft, statws cynlluniau datblygu lleol a datganiadau ardal – beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynigion yn groes i'w gilydd?
- 2.24 Roedd yr ymatebwyr o'r farn ei bod yn hollbwysig sicrhau bod digon o gynrychiolwyr lleol yn aelodau o'r partneriaethau ar sail ardal, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd lleol. Croesawyd y cysylltiad hefyd â'r canlyniadau a oedd yn cael blaenoriaeth gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Nododd rhai hefyd fod angen cynnwys y Byrddau Iechyd Lleol.
- 2.25 Roedd peth pryder am y ffaith na fyddai'n ofynnol, ar y dechrau, roi'r dull gweithredu hwn ar waith ledled Cymru. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig na fyddai unrhyw fylchau gofodol rhwng yr ardaloedd lle byddai'r dull ar sail ardal yn cael ei fabwysiadu. Er y cydnabuwyd bod angen mabwysiadu dull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan, awgrymwyd hefyd y gallai'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ymdrin â rhai o'r materion hyn, ac y gellid defnyddio'r dull ar sail ardal i fynd i'r afael â meysydd mwy cymhleth. Nodwyd hefyd y bydd angen cryn ofal wrth reoli sut yr eir ati i gyflwyno'r dull hwn, a hynny er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd ac unrhyw oedi wrth roi cyngor a gwneud penderfyniadau.
- 2.26 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen datrys materion penodol yn ymwneud â dewis ardaloedd, a sut i gynnwys cymunedau yn y drafodaeth honno. Roedd cryn gefnogaeth i'r syniad o ddefnyddio dalgylchoedd afonydd yn sail ar gyfer y dull ar sail ardal, oherwydd y byddai manteision i hynny o ran osgoi dyblygu prosesau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Fodd bynnag, roedd bron yr un nifer yn argymhell gofal yn hynny o beth. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i feddwl yn ofalus am y cysylltiad (neu'r diffyg cysylltiad) rhwng dulliau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd afonydd a phethau fel coedwigaeth, ardaloedd yr ucheldir, a rheoli tirweddau. Roedd angen hefyd ystyried y cysylltiadau â chymunedau.
- 2.27 Awgrymwyd y byddai dewis ardaloedd ar sail cymeriad y dirwedd yn ddull arall posibl, a nododd nifer o'r rheini a ymatebodd ar ran Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fod gan y sector hwnnw rôl bosibl i'w chwarae o ran hwyluso dull o'r fath.
- 2.28 Wrth fynd ati i ddiffinio'r "ardal", roedd yn bwysig ystyried y data a allai fod ar gael neu y gallai fod eu hangen. Nododd yr ymatebwyr y byddai manteision yn y

tymor hwy pe bai cyrff gwahanol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gallu defnyddio'r un dystiolaeth.

- 2.29 Er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad o berchenogaeth ac ymroddiad, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau "Adnoddau Naturiol" neu eu cynlluniau "Seilwaith Gwyrdd" eu hunain mewn ymateb i'r dull ar sail ardal, neu ar y cyd ag ef.
- 2.30 Nododd yr ymatebwyr y byddai angen eglurhad ynghylch sut i weithio gyda'r cyrff hynny na fyddant yn mabwysiadu dull ar sail ardal, a hefyd ynghylch datganiadau ardal a fydd yn gorgyffwrdd yn ddaearyddol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod angen cyfle i ystyried sut orau y mae mynd ati i gydlynu gwaith cynllunio morol a gwaith rheoli adnoddau naturiol.
- 2.31 Ymhlith rhai o'r sylwadau eraill a gyflwynwyd oedd na ddylai'r dull a fabwysiedir arwain at gyfyngiadau diangen ar fusnesau ffermio cynaliadwy, ac y gallai'r dull ar sail ardal fod yn gyfle i ddylanwadu ar y modd y mae taliadau amaeth-amgylcheddol yn cael eu defnyddio.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod y dull yn ddigon hyblyg i allu disodli elfennau arwyddocaol o'r cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol?

- 2.32 Roedd 40 o'r ymatebwyr (70% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Roedd amrywiaeth barn am y cynnig hwn, a pheth cefnogaeth iddo. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig yn cydnabod y manteision a fyddai'n dod i'r amlwg yn y tymor hir drwy symleiddio a lleihau cymhlethdod. Ond o ran y tymor byrrach, roeddent o'r farn y byddai'n well defnyddio'r Bil i edrych ar yr opsiynau ar gyfer integreiddio. Cydnabuwyd y bydd yn rhaid i'r dull ar sail ardal fod wedi hen ennill ei blwyf cyn y gellir nodi'r holl bosibiliadau o ran disodli cynlluniau sy'n bodoli eisoes.
- 2.33 Er y gellid disodli rhai prosesau cynllunio, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod angen clir i gadw dulliau gweithredu eraill, megis diogelu safleoedd, cymorth a chymhellion ariannol, dulliau gweithredu ar raddfa tirwedd, diogelu rhywogaethau unigol, a rhaglenni ar eu cyfer. Roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol hefyd y bydd angen ystyried cynigion i ddirymu neu i ddiddymu cynlluniau sydd eisoes yn bod yng nghyd-destun y Gyfarwydeb ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol.
- 2.34 Teimlai ychydig o'r ymatebwyr y dylid defnyddio'r Bil ei hun i ddirymu gofynion eraill o ran cynllunio adnoddau, neu i alluogi cynlluniau statudol eraill i gyflawni swyddogaethau cynllunio perthnasol mewn perthynas ag adnoddau naturiol, yn hytrach na dibynnu ar bwerau galluogi i wneud hynny yn y dyfodol. Teimlent y gallai fod modd symleiddio prosesau, a bod hynny'n rhywbeth i'w groesawu, ond na ddylid gwneud hynny ar draul ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid ac yn lle cynnal asesiadau llawn.

- 2.35 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid ehangu cwmpas Cynlluniau Datblygu Lleol i gynnwys y "gofod gwyn", hynny yw, tir y tu allan i ffiniau anheddau nad yw wedi'i glustnodi at ddibenion datblygu, a hefyd i ymdrin yn benodol â sut y mae gwasanaethau ecosystemau yn sail i dwf a datblygiad.
- 2.36 Heb y manylion, nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn gallu gweld sut y byddai'r dull ar sail ardal yn bodloni'r gofynion statudol sy'n gysylltiedig â phrosesau statudol eraill, ac awgrymodd rhai ohonynt y gallai fod modd integreiddio'r prosesau hynny â'r dull ar sail ardal, yn hytrach na'u bod yn cael eu disodli gan y dull hwnnw. Tynnwyd sylw at gynlluniau a strategaethau eraill sydd â diben mwy lleol a phenodol, ac awgrymwyd y gallent barhau i chwarae rôl bwysig o ran helpu i gyflawni amcanion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys rheoli bioamrywiaeth a hwyluso cysylltiadau â'r gymuned.
- 2.37 Teimlai'r ymatebwyr y byddai cynigion i symleiddio prosesau yn fwy tebygol o lwyddo pe baent yn osgoi bod yn llawdrwm ac yn haearnaidd a phe baent, yn lle hynny, yn annog pobl i arloesi ac i gynllunio mewn partneriaeth. Roedd ychydig o'r ymatebwyr o'r farn mai un o'r elfennau a fydd yn allweddol er mwyn cyflawni hyn fydd y gwaith craffu, llywodraethu a goruchwyllo mewnol a wneir gan CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) wrth i'r dull gael ei roi ar waith.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r bwriad i osod gofyn ar gyrff cyhoeddus eraill i gydweithredu gyda'r dull rheoli ar sail ardal?

- 2.38 Roedd 70 o'r ymatebwyr (90% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r pecyn cyffredinol o gynigion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai gyrff cyhoeddus eraill helpu gyda'r gwaith o weithredu'r dull ar sail ardal; ond dywedwyd hefyd fod sawl rheswm i fod yn ofalus yn hynny o beth. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynghylch sut y gellid cyflawni hynny. Roeddent o'r farn y dylid defnyddio'r wybodaeth honno wrth ystyried faint o gapasiti y gallai fod ei angen er mwyn cyrraedd y nod yn hyn o beth.
- 2.39 Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai llwyddiant cymysg, a chyfyngedig, ym marn rhai, a gafodd y ddyletswydd bioamrywiaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, a bod angen dysgu gwersi yn sgil hynny.
- 2.40 Ymhlith rhai o'r themâu cyffredin oedd yr angen i gofio'r toriadau i gyllid llywodraeth leol a'r beichiau gweinyddol ac ariannol posibl. Fodd bynnag, er bod nifer o'r ymatebwyr wedi crybwyll y gallai gofyniad i gydweithredu olygu y byddai angen rhagor o adnoddau yn y tymor byr, nid oedd unrhyw un ohonynt yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail yr adnoddau y byddai eu hangen.
- 2.41 Teimlai nifer o'r ymatebwyr ei bod yn hanfodol gosod dyletswydd gref ar gyrff eraill i gyflawni yn unol â'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, a

gofynnwyd cwestiynau am fonitro a gorfodi. Un o'r awgrymiadau oedd y dylai fod yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gael ei ddal i gyfrif bob blwyddyn, ac i gyflwyno adroddiad yn amlinellu sut y bydd wedi mynd ati i ystyried y darpariaethau.

- 2.42 Nododd rhai o'r ymatebwyr y bydd yn rhaid wrth bartneriaethau cyfartal rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector amgylcheddol a'r sector Cyrff Anllywodraethol er mwyn sicrhau bod modd mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau. Ymhlith rhai o'r pwyntiau eraill perthnasol oedd mai un o'r profion allweddol fydd sut y bydd y broses hon yn dylanwadu ar brosesau a ffactorau eraill, megis y Cynllun Datblygu Gwledig. Gofynnwyd hefyd a oes angen gosod dyletswyddau ar CNC i rannu gwybodaeth.
- 2.43 Roedd ymatebwyr eraill o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau bod cyrff eraill yn cydweithredu a chydweithio oedd drwy wneud hynny'n wirfoddol yn hytrach na gosod dyletswyddau penodol arnynt. Byddai rhoi rhagor o wybodaeth am y canlyniadau a ddymunir yn ffordd fwy cadarnhaol o weithredu na gosod dyletswydd. Roedd hyblygrwydd ar y lefel leol yn ystyriaeth allweddol, ac felly hefyd yr angen i nodi'r bobl a'r sefydliadau priodol i gydweithio â nhw. Cydnabuwyd hefyd y gallai hynny amrywio o'r naill ardal i'r llall.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylai CNC fod yn awdurdod adrodd arweiniol ar gyfer adnoddau naturiol?

- 2.44 Roedd 81 o'r ymatebwyr (96% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r pecyn cyffredinol o gynigion. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno mai CNC ddylai fod yn awdurdod adrodd arweiniol ar gyfer adnoddau naturiol. Er hynny, roedd yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod gan gyrff a phartneriaethau eraill ran bosibl i'w chwarae yn hyn o beth – gan gynnwys y partneriaethau bioamrywiaeth lleol. Cydnabuwyd bod gan gymunedau hefyd rôl i'w chwarae (gwyddoniaeth dinasyddion). Roedd pa mor aml y byddai angen cyflwyno adroddiadau yn fater allweddol arall y tynnwyd sylw ato, a chyfeiriwyd hefyd at yr her o amserlennu'r adroddiadau hynny, yr adroddiadau eraill yr oedd dyletswydd i'w cyflwyno o dan Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd, a darparu tystiolaeth i gefnogi gwaith ym maes cynllunio defnydd tir a meysydd polisi eraill.
- 2.45 Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai CNC fod yn gorff priodol i gyflwyno adroddiadau ar y cyd â Chadw, ar gyflwr tirweddau hanesyddol, er enghraifft. Teimlai llond llaw o'r ymatebwyr fod angen i CNC ddatblygu i fod yn gorff integredig cyn y gallai adrodd mewn ffordd gwbl integredig.
- 2.46 Roedd ychydig o'r ymatebwyr yn anghytuno ac yn awgrymu mai Llywodraeth Cymru neu gorff annibynnol ddylai fod yn awdurdod adrodd arweiniol.

Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

- 2.47 Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r goblygiadau o ran adnoddau a chyllid a fyddai'n dod i'r amlwg yn y tymor byr i'r tymor canolig yn sgil mwy o gydweithio a'r dull o weithredu ar sail ardal. Roeddent yn cydnabod, serch hynny, y byddai arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau yn y tymor hir. Mynegwyd pryderon am y beichiau gweinyddol a rheoleiddiol ychwanegol posibl ar CNC ac ar sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Awgrymodd ychydig o'r ymatebwyr y gallai'r ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol, a'i ffocws ar y dull ecosystemau, danseilio'r trefniadau cyllido yn y dyfodol rhwng CNC a'r cyrff sy'n bartneriaid iddo. Fodd bynnag, tynnodd eraill sylw at yr effaith gadarnhaol y gallai'r dull ar sail ardal ei chael ar gynllunio defnydd tir ac o ran gwneud gwell penderfyniadau.
- 2.48 Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at yr angen i gynnal Asesiad trwyadl a chadarn o Effaith Rheoleiddiol er mwyn ystyried pa effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar sefydliadau ledled Cymru.
- 2.49 Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd angen ailddyfeisio trefniadau newydd, ond yn hytrach wneud gwell defnydd o drefniadau cynllunio sydd eisoes yn bod, megis y Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn chwarae rhan weithredol yn y broses, gan ddweud hefyd fod angen cyhoeddi canllawiau clir ynglŷn ag unrhyw ofynion newydd. Dywedodd eraill fod angen cynnwys yr holl bartneriaid – y sector busnes yn eu plith – wrth fynd ati i ddatblygu a gweithredu'r cynigion.
- 2.50 Nododd nifer o'r ymatebwyr fod bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, yn benodol felly o ran effeithiau a dulliau ysgogi cymdeithasol ac economaidd. Byddai datrys hynny'n hanfodol er mwyn rheoli adnoddau naturiol gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar Ddatblygu Cynaliadwy. Nodwyd hefyd fod hwn yn gyfle i edrych ar y setiau data presennol ac ystyried ffyrdd gwell o gydgrynhoi gwybodaeth am ein hadnoddau naturiol.
- 2.51 Tynnodd ychydig o'r ymatebwyr sylw at yr angen i sicrhau bod y cynigion yn gydnaws ag egwyddorion Rheoliadau Gwell.

Pennod 3: Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyfleoedd newydd i gyflawni

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ym mhennod 3 ar ffyrdd newydd o weithio ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)?

- 3.1 Cytunai 48 o'r ymatebwyr (80% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) â'r pecyn cyffredinol o gynigion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn **cytuno** â'r cynigion ar gyfer dulliau gweithio newydd i CNC a nodwyd y cyfleoedd posibl i arloesi. Nodwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod CNC yn cydweithio â phartneriaid amrywiol iawn.
- 3.2 Nododd llawer o ymatebwyr y dylai CNC sicrhau bod arferion gwaith effeithiol wedi'u sefydlu ac na ddylai'r cynigion newydd gael effaith andwyol ar ansawdd gwasanaethau. Croesawyd dulliau gweithio newydd ar yr amod eu bod yn sicrhau manteision hirdymor i'r amgylchedd, ond ni ddylent wanhau deddfwriaeth na pholisïau sydd eisoes mewn grym. Teimlai rhai ymatebwyr fod gweithredu'r Arferion Amgylcheddol Gorau ynghyd â'r diffyg o ran camau gorfodi'n faterion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.
- 3.3 Cydnabu sawl ymatebwr y gallai pwerau arbrofol fod yn fuddiol wrth gyflwyno dulliau gweithio arloesol. Eto i gyd, dylai mesurau diogelu gael eu cyflwyno, er enghraifft dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'n ffurfiol unrhyw gynlluniau newydd, a dylai cynlluniau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- 3.4 Teimlai rhai y gallai talu am gynigion ynghylch gwasanaethau ecosystemau greu cyfleoedd i wobrwyo mesurau rheoli tir positif. Eto i gyd, mynegwyd pryderon ynghylch yr angen i ddiogelu rhywogaethau neu gynefinoedd anadnewyddadwy. Pwysleisiwyd nad oedd gwarchod bioamrywiaeth yn ased yr oedd modd ei fasnachu. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch sut y gallai'r newidiadau i gytundebau rheoli effeithio ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Os bydd perchenogaeth tir yn newid, er enghraifft, nodwyd bod angen ystyried sut y caiff mesurau rheoli amgylcheddol eu cynnal. Cytunai rhai ymatebwyr y gallai Rheolau Rhwymo Cyffredinol leihau biwrocratiaeth ond teimlai eraill y gallai hyn gael ei danseilio petai sancsiynau ychwanegol yn cael eu cyflwyno.
- 3.5 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r pŵer galluogi a gynigiwyd ar gyfer gwneud newidiadau yn y dyfodol. Eto i gyd, roedd llawer yn bryderus ynghylch yr egwyddor y gallai pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol gael ei roi fel hyn a phwysleisiwyd y dylai unrhyw bŵer fod yn bŵer cyfyngedig. Teimlai rhai y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio canllawiau at ddiben arall sef llywio gweithgareddau CNC.

Cwestiwn 11 – Pa gyfyngiadau neu drefniadau diogelu ar ddefnyddio pwerau a allai fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi CNC i dreialu dulliau arloesol o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig?

- 3.6 Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai angen rhyw fesur diogelu neu gyfyngiad er mwyn sicrhau bod y pŵer ar gyfer profi dulliau newydd yn addas i'w ddiben ac yn gwbl dryloyw. Pwynt cyffredin a godwyd oedd yr angen am ddulliau ymgynghori cwbl glir a phriodol cyn dechrau unrhyw waith treialu. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i sefydlu proses lle y byddai Gweinidog yn cymeradwyo penderfyniadau ond cwestiynodd eraill a allai hyn wneud y broses o wneud penderfyniadau yn rhy wleidyddol.
- 3.7 O blith yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ynghylch yr egwyddor o ehangu'r pŵer i gyflwyno pwerau arbrofol, roedd y rhan fwyaf o blaid yr awgrym. Ymhlith y rhesymau am hyn oedd yr hyblygrwydd ychwanegol y byddai'n ei roi i CNC o safbwynt cynnig atebion i broblemau newydd neu gymhleth, a'r cyfleoedd a allai ddeillio o'r pŵer hwn. Awgrymodd un ymatebydd fod yn rhaid i unrhyw ddull priodol sydd i'w dreialu gyd-fynd â'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ac â pholisïau ar sail ardal.
- 3.8 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, ac yn arbennig gyfarwydddebau'r Comisiwn Ewropeaidd, a hefyd at bwysigrwydd arloesi wrth sicrhau cynnydd yn gyffredinol. Cyfeiriodd rhai at natur gymhleth deddfwriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd o safbwynt y manteision a allai ddeillio o arloesi, yn benodol dechnegau newydd sy'n sicrhau bod modd cydymffurfio drwy ddulliau mwy effeithlon.
- 3.9 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y cynnig i ddatblygu Taliadau am Wasanaethau Ecosystem fel maes enghreifftiol lle y byddai pŵer ehangach i dreialu dulliau newydd yn bwysig.

Cwestiwn 12- Ydych chi'n cytuno bod CNC yn gorff priodol i weithredu fel hwyluswyr, broceriaid ac achredwyr ar gyfer Taliadau ar gyfer Cynlluniau Gwasanaethau Ecosystemau? A oes angen unrhyw bwerau i greu rhagor o gyfleoedd o safbwynt Taliadau ar gyfer Cynlluniau Gwasanaethau Ecosystemau?

- 3.10 Cytunai 39 o'r ymatebwyr (65% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) â'r pecyn cyffredinol o gynigion. Yn gyffredinol roedd cryn gefnogaeth i ddatblygu swyddogaeth CNC er mwyn cynyddu'r defnydd o fecanweithiau marchnad. Nododd yr ymatebwyr y gallai talu am wasanaethau greu ffynonellau newydd a gwerthfawr o gyllid a chreu cyfleoedd i wobrwyo rheolaeth bositif a dulliau

arloesol o reoli tir. Eto i gyd, mynegodd rhai ymatebwyr amheuon ynghylch y ffaith y gallai gwarchod bioamrywiaeth ddatblygu'n ased i'w fasnachu. Nodwyd bod angen sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle fel nad yw unrhyw rywogaethau na chynefinoedd anadnewyddadwy yn cael eu colli.

- 3.11 Nodwyd bod cwestiynau sylfaenol o hyd, ac yn arbennig mewn perthynas â dylunio gwasanaethau, a bod yn rhaid i unrhyw gynllun fod yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn ac yn destun dulliau gwerthuso economaidd priodol. Roedd cryn ddiddordeb yng nghanfyddiadau'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff yr ymchwil hwn ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2014.
- 3.12 Mynegwyd pryderon ynghylch pa mor briodol fyddai i CNC weithredu fel brocer cynlluniau, ac yn arbennig lle y gallai olygu gwrthdaro buddiannau â'u gwaith rheoleiddio a'r angen am gamau archwilio annibynnol. Gofynnodd rhai ymatebwyr a ddylai CNC achredu cynlluniau ac a oes gan y sefydliad y lefel briodol o sgiliau a gallu yn y maes hwn. Teimlai rhai ymatebwyr mai CNC sydd yn y sefyllfa orau gan ei fod eisoes yn darparu gwybodaeth ac yn hwyluso cynlluniau. Awgrymodd rhai mai gwaith i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol oedd datblygu systemau newydd ar gyfer marchnadoedd penodol. Tynnwyd sylw at swyddogaeth partneriaid y trydydd sector, ac yn arbennig mewn perthynas â chynlluniau broceriaeth.
- 3.13 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai taliadau amaethyddol a thaliadau coedwigaeth gyd-fynd â gwasanaethau ecosystem a phwysleisiwyd pwysigrwydd integreiddio agos â gwaith cynllunio defnydd tir a Chynlluniau Datblygu Lleol. Nodwyd bod darpariaeth eisoes ar gyfer elfennau o wasanaethau ecosystem drwy ddull y Seilwaith Gwyrdd sy'n cynnwys yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a chytundebau caniatâd cynllunio adran 106.

Cwestiwn 13: Faint o bŵer y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ei gael i lunio cytundebau rheoli?

- 3.14 Croesawai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fentrau ar gyfer cytundebau rheoli a fyddai'n 'cyd-fynd â'r tir' yn hytrach na'r tiffeddiannwr. Y prif reswm a nodwyd oedd yr awydd i gyflwyno dull cynaliadwy a hirdymor o reoli'r tir a sicrhau'r manteision amgylcheddol hirdymor - hyd yn oed os bydd perchenogaeth y tir yn newid. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynnig lle y byddai cytundebau'n cael eu cofrestru fel pridiannau tir lleol. Eto i gyd, awgrymodd nifer o ymatebwyr na ddylai cytundebau ond ymwneud â pherchenogaeth y tir oherwydd yr effaith bosibl ar werth masnachol y tir.
- 3.15 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod gan CNC eisoes bŵer i ymuno â chytundebau rheoli o dan y ddeddfwriaeth bresennol a chwestiynwyd yr angen i estyn pwerau. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn awyddus i sicrhau nad yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn colli eu pwerau o safbwynt tirweddau.
- 3.16 Nododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch y ffaith y gallai'r cytundebau fod yn orfodol, gan adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru sef fod yn rhaid i gytundebau rheoli fod yn seiliedig ar gytundebau gwirfoddol.
- 3.17 Roedd rhai rhanddeiliaid yn awyddus i sicrhau bod modd i hyd cytundebau amrywio. Byddai hyn yn sicrhau digon o hyblygrwydd i allu llunio cytundebau am gyfnod penodol neu gyfnod amhenodol rhag ofn y byddai angen eu diwygio neu eu diddymu ar ôl cyfnod penodol o amser yn sgil, er enghraifft, newidiadau mewn amgylchiadau lleol.
- 3.18 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am weithdrefnau priodol ar gyfer datrys anghydfodau ac apelio. Awgrymwyd bod angen proses annibynnol o gymrodeddu ac apelio er mwyn sicrhau camau gweithredu teg a chyfiawn.
- 3.19 Nododd nifer o ymatebwyr y gallai cytundebau rheoli fod ynghlwm wrth daliadau am wasanaethau ecosystem, fel dulliau rheoli allweddol ar gyfer ecosystemau ac adnoddau naturiol.
- 3.20 Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i sicrhau bod digon o adnoddau hirdymor ar gael ar gyfer unrhyw gytundebau rheoli.

Cwestiwn 14: Gan gydnabod bod rhai pweiau yn bodoli yn hyn o beth, pa gyfleoedd sy'n bodoli i sefydlu Rheolau Rhwymo Cyffredinol y tu hwnt i'w cwmpas presennol?

- 3.21 Cafwyd sylwadau amrywiol gan yr ymatebwyr. Roedd cryn gefnogaeth i'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol er mwyn lleihau'r baich rheoliadol ar fusnesau ac unigolion, gan sicrhau dull mwy cymesur o reoli gweithgareddau risg isel. Gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o wybodaeth ynghylch y bwriad i gymhwyso Rheolau Rhwymo Cyffredinol tra theimlai ymatebwyr eraill eu bod yn haen ychwanegol a diangen o reoliadau neu gymhlethdod.
- 3.22 Er mai ychydig o gynigion penodol iawn ynghylch y defnydd o Rheolau Rhwymo Cyffredinol a awgrymwyd, roedd nifer o'r ymatebion yn dangos awydd cyffredinol i ddefnyddio egwyddorion tryloywder, hyblygrwydd ac effeithlonrwydd wrth lunio rheoliadau ar gyfer gweithgareddau risg isel. Croesawyd y syniad o gyflwyno safon gofynnol o arfer da mewn perthynas â gweithgaredd amgylcheddol drwy'r system hon o reoleiddio. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys cyfleoedd posibl ar gyfer diogelu'r amgylchedd yn well, er enghraifft lle y byddai modd sicrhau gwell defnydd o adnoddau drwy eu neilltuo i weithgareddau mwy niweidiol, a sicrhau dim dyblygu.
- 3.23 Nodwyd bod ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori'n eang yn ofynion pwysig ar gyfer datblygu rheoliadau newydd.
- 3.24 Teimlai nifer o'r ymatebwyr fod Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn ddull a allai wanhau'r mesurau gwarchod statudol presennol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, tra theimlai eraill fod y rheoliadau presennol eisoes yn ddigonol ar gyfer eu meysydd o ddiddordeb. Cyflwynwyd ychydig o sylwadau ynghylch gorfodi a chyfeiriodd nifer ohonynt at bwysigrwydd monitro'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau bwriedig yn cael eu cyflawni. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at swyddogaeth CNC yn y broses hon. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn barnu y byddai CNC yn chwarae rhan ganolog, gan gynnwys cydgysylltu'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth.
- 3.25 Ymysg y meysydd a awgrymwyd ar gyfer cymhwyso'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol roedd:
- Gweithredu a chynnal tanciau carthion;
 - Mynd i'r afael â'r erydu pridd sy'n deillio o rai gweithgareddau defnydd tir;
 - Atal y llwch neu'r llygredd sŵn sy'n deillio o safleoedd adeiladu;
 - Lleihau swm y gwastraff bwyd sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth;
 - Lleihau'r dŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth gyhoeddus ac i'r afonydd;
 - Gosod safonau gofynnol ar gyfer rheoli tir mewn modd cynaliadwy, gan eu seilio ar ofynion trawsgydymffurfio;
 - Amlinellu'r arferion gorau ar gyfer llosgi grug a phorfa.

Cwestiwn 15: Mewn cysylltiad â phwerau diwygio Gweinidogion Cymru, ydych chi'n cefnogi: a) y cynnig gwreiddiol i gyfyngu swyddogaethau CNC, yn amodol ar yr amodau a nodwyd); neu b) y cynnig ychwanegol i gynnwys deddfwriaethau cyffredinol ar yr amgylchedd, yn amodol ar yr amodau a nodwyd?

- 3.26 Dywedodd 21 o'r ymatebwyr (55% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cytuno ag opsiwn A, ac roedd 17 o'r ymatebwyr (45%) yn cytuno ag opsiwn B. Ar y cyfan, roedd peth cefnogaeth i gynnig A a chynnig B. Awgrymodd rhai ymatebwyr a oedd o blaid cyfyngu ar y pŵer diwygio o safbwynt swyddogaethau CNC y byddai'n fwy doeth i ystyried beth y byddai modd ei gyflawni drwy bwerau presennol CNC cyn ceisio ehangu pwerau ymhellach. Awgrymodd y rhai a oedd o blaid pŵer diwygio ar gyfer deddfwriaeth amgylcheddol ehangach y byddai hyn yn sicrhau'r hyblygrwydd i allu ymateb mewn modd cydgysylltiedig i heriau'r amgylchedd yn y dyfodol. Nid yw cwmpas hyn yn hysbys eto.
- 3.27 Thema gyffredin ymysg y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a wrthododd y ddau gynnig, oedd y pryder na fyddai'r broses o ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth yn caniatáu craffu digon manwl gan Lywodraeth Cymru nac yn creu cyfle i ymgynghori â'r cyhoedd. Fel y nodwyd ynghynt teimlwyd hefyd, fel y nodir yn y Papur Gwyn, fod y ddau bŵer yn rhy eang. Credai rhai y gallai'r mesur leihau camau craffu'r Cynulliad ynghyd ag atebolrwydd democrataidd ynghylch newidiadau pwysig yn y dyfodol o safbwynt y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd Cymru. Nododd yr ymatebwyr hefyd y dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol gael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau canlyniadol anfwriadol nac annisgwyl.
- 3.28 Mynegodd rhai ymatebwyr yr angen am ragor o fanylion ynghylch y mathau posibl o newidiadau cyn iddynt allu gwerthuso i ba raddau yr oeddent yn cefnogi y naill gynnig neu'r llall. Nodwyd y bydd y gallu i lunio'n briodol bŵer diwygio yn dibynnu ar y gallu i gynnwys diffiniad cadarn a diamwys o 'reoli adnoddau naturiol yn integredig' yn y Bil, a sicrhau modd gwrthrychol a thryloyw o ddangos a yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn mynd yn groes i'r diffiniad hwnnw.

Cwestiwn 16: Nodwch unrhyw dystiolaeth benodol o wrthdaro neu rwystrau posibl rhwng amcanion rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig a chymhwyso deddfwriaeth bresennol.

- 3.29 Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn gallu cyflwyno tystiolaeth benodol o feysydd o wrthdaro posibl a phwysleisiwyd y byddai angen eglurhad pellach ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn integredig cyn y byddai modd pennu gwrthdaro posibl â deddfwriaeth bresennol.

3.30 O blith yr ymatebwyr a allai bennu meysydd o wrthdaro posibl, y ddwy brif thema a bwysleisiwyd oedd:

- **Aliniad** – nododd yr ymatebwyr y gallai gwrthdaro posibl ddigwydd os nad oedd yr amcanion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn cyd-fynd â nodau biliau sydd ar y gweill neu drefniadau presennol. Nodwyd bod dyletswyddau cynllunio presennol yn enghraifft o faes lle y gallai diffyg aliniad ddigwydd.
- **Cydymffurfiaeth ag ymrwymadau presennol** – mynegodd rai ymatebwyr bryderon y gallai dull integredig o reoli adnoddau naturiol olygu nad oes modd cyflawni ymrwymadau presennol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn bwysigrwydd sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yr UE a glynu wrth gytundebau presennol ar gyfer bioamrywiaeth a rheoli safleoedd/rhywogaethau.

3.31 Yn ogystal, pwysleisiodd ychydig o ymatebwyr rwystrau posibl nad ydynt o natur ddeddfwriaethol a allai atal camau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig rhag cyflawni eu hamcanion. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y pwysau ychwanegol a allai fod ar adnoddau CNC yn y dyfodol. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at y tensiwn posibl rhwng CNC a chyrff cyhoeddus eraill o ystyried rôl ehangach y sefydliad a'r cydweithio sy'n ofynnol er mwyn gweithio ar sail ardaloedd unigol.

Cwestiwn 17: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith y cynigion hyn, er enghraifft, ar eich busnes neu'ch sefydliad chi?

3.32 Mynegodd nifer o ymatebwyr amheuon ynghylch neilltuo **adnoddau** digonol ar gyfer ymdrin â goblygiadau'r cynigion ac ynghylch y ffaith y gallai'r baich gweinyddol a'r baich rheoleiddio gynyddu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch dylunio gwasanaethau a'r angen am dystiolaeth gadarn, arbenigedd ac adnoddau er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol.

3.33 Nododd rhai ymatebwyr fod effaith y cynigion yn gysylltiedig â'r rhaglen ddeddfwriaethol ehangach, ac yn arbennig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen am integreiddio agos â chynlluniau defnydd tir, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl.

Pennod 4: Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r pecyn o gynigion ynglŷn â rheoleiddio'r gwaith o wahanu gwastraff a dull o gyfuno'r 5 mesur gyda'i gilydd? A oes yna unrhyw ddeunyddiau neu ffrydiau gwastraff eraill y dylid eu cynnwys yn y gofynion i ddioli a chasglu ar wahân?

- 4.1 Dywedodd 41 o'r ymatebwyr (68% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig. Cafwyd ymateb cymysg gan fusnesau a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau. Roedd rhai yn croesawu'r cynigion, ac yn teimlo y byddai casglu deunyddiau ar wahân yn helpu i godi ansawdd deunyddiau eildro, yn creu galw am brisiau uwch, a bod sicrhau deunydd eildro o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer sector gweithgynhyrchu'r DU. Roedd eraill yn mynegi pryderon gan gynnwys y costau posibl a'r angen i beidio â gosod gormod o faich rheoleiddio ar fusnesau bach, a phryderon bod cyfyngiadau o fewn y farchnad casglu gwastraff yn golygu na fydd arbedion yn cael eu pasio ymlaen i gynhyrchwyr gwastraff.
- 4.2 Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion gan yr Awdurdodau Lleol; er enghraifft dywedodd un awdurdod bod gwahanu gwastraff wedi bod yn llwyddiannus wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu gwastraff cartrefi, ac y dylai weithio ar gyfer ffrydiau gwastraff eraill o gael gwasanaeth priodol gan y casglwr i ddioli gwastraff yn y ffynhonnell. Awgrymodd Awdurdodau eraill bod digon o ysgogiad eisoes yn bod, er enghraifft y targedau Ailgylchu Statudol a osodwyd dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, ac y gallai'r cynigion ychwanegol wrthdaro â hyn. Pryderon eraill oedd y byddai'r cynigion yn rhoi mwy o bwysau ar gyllideb yr awdurdodau, a bod y cynigion yn rhy gaeth o ran lefel y didoli sy'n ofynnol.
- 4.3 Cafwyd amrywiol safbwyntiau gan ymatebwyr eraill, gan gynnwys:
- Dylid gosod y pwyslais ar y casglwr gwastraff i ddarparu gwasanaeth casglu ar wahân;
 - Dylid cyflwyno'r gofynion fesul cam, a gofyn i fusnesau mawr gydymffurfio gyntaf;
 - Dylid ategu'r mesurau drwy addysgu'r cyhoedd a chynnal ymgyrchoedd i newid ymddygiad;
 - Dylai'r lefel gwahanu gwastraff sy'n ofynnol gan gynhyrchwyr gael ei osod yn ôl disgrisiwn y gweithredwr;
 - Dylid pasio'r cyfrifoldeb, lle bo'n bosibl, yn uwch yn y gadwyn gyflenwi (hy i'r rhai sy'n cyflenwi'r cynnyrch sydd yn y pen draw yn troi'n wastraff);
 - Gellid datblygu safleoedd dod â gwastraff masnachol er mwyn ategu'r cynigion;
 - Rhaid i dermau fel "casgliad ar wahân" ac "ailgylchu" gael diffiniad cyfreithiol tynn;
 - Rhaid i sefydliadau fel awdurdodau iechyd edrych ar faterion fel gofod, casgliadau a hylendid.

- 4.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo na ddylid cynnwys rhagor o ddeunyddiau yn y gofynion. Dywedodd sawl un y dylid eithrio gwastraff bwyd neu ystyried ei eithrio ar sail y ffaith y gall fod yn anodd ei ddi-doli a'i gasglu, a bod y deunydd yn isel o ran gwerth ar ôl ei gasglu.
- 4.5 Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr ddeunyddiau ychwanegol, gan gynnwys olew coginio, gwastraff gwyrdd, tecstiliau, dodrefn, tetrapaks a Chyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE).

Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno bod y lefel o wahanu sy'n ofynnol gan unigolion / busnesau yn dderbyniol?

- 4.6 Dywedodd 30 o'r ymatebwyr (58% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig. Thema a gododd yn gyson oedd y dylid caniatáu rhywfaint o gymysgu deunyddiau ailgylchadwy, gan ddibynnu o bosib ar faterion fel faint o ofod addas sydd ar gael i storio gwastraff yn y busnes neu sefydliad, neu swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan y busnes neu sefydliad. Ffactorau posibl eraill a nodwyd oedd lleoliad y busnes neu sefydliad (er enghraifft gwledig neu drefol) a materion logisteg neu hylendid a allai godi mewn safleoedd mawr cymhleth fel ysbytai.
- 4.7 Yn yr achosion uchod, teimlwyd y byddai nifer o fusnesau neu sefydliadau yn ei chael yn anodd dod o hyd i gasgliadau economaidd ar gyfer symiau bach o ddeunydd ailgylchu, a'i bod yn fwy cost-effeithiol defnyddio casgliadau cymysg.
- 4.8 Sylw cyffredin gan awdurdodau lleol oedd y dylid gosod dyletswydd uniongyrchol ar ddeiliaid tai hefyd i ddi-doli eu gwastraff i'w gasglu. Sylw arall oedd na ddylai'r ddyletswydd i gasglu deunyddiau drwy gasgliadau ar wahân ar ben gofynion Rheoliadau Gwastraff (Cymru) 2011 fod yn berthnasol i Awdurdodau Lleol.
- 4.9 Mater penodol a godwyd gan sawl busnes sy'n gyfrifol am ardaloedd cyhoeddus neu "flaen y tŷ" mewn bwytai oedd bod cryn dipyn o halogi yn debyg o ddigwydd mewn biniau yn yr ardaloedd hynny, a'i bod yn anodd iawn gorfodi unrhyw reolau'n effeithiol yno.
- 4.10 Sylwadau eraill oedd y dylai'r farchnad gasglu benderfynu ar lefel y didoli (er y dylid nodi y byddai hyn yn gwrthdaro â gofynion Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011), y gallai'r cynigion arwain at daflu sbwriel o ardaloedd storio gwastraff, y gallai fod yn anodd gwahanu gwastraff pren ac y gallai gwaith gorfodi CNC fod yn anodd.

Cwestiwn 20: A oes unrhyw fathau neu feintiau penodol o fusnesau lle na fyddai'n ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol nac yn economaidd i gadw 7 ffrwd wastraff wahanol yn y tarddle?

- 4.11 Dywedodd 38 o'r ymatebwyr (78% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn teimlo bod rhai busnesau lle na fyddai'n ymarferol, o safbwynt technegol, amgylcheddol neu economaidd i gadw'r saith ffrwd wastraff ar wahân yn y ffynhonnell. Un o'r rhesymau a nodwyd oedd y ffaith y byddai busnesau neu sefydliadau sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff, neu sydd mewn eiddo anodd ei gyrraedd (er enghraifft, yng nghefn gwlad) yn ei gweld yn anymarferol cadw'r ffrydiau gwastraff ar wahân yn y ffynhonnell. Teimlwyd y byddai casgliadau gwastraff o eiddo o'r fath yn anymarferol yn economaidd i gasglwyr gwastraff.
- 4.12 Awgrymwyd hefyd na ddylai fod yn ofynnol i fusnesau sydd â gofod cyfyngedig neu safleoedd mawr a chymhleth sy'n sensitif i faterion hylendid, fel ysbytai, gadw'r deunyddiau ar wahân yn y ffynhonnell.
- 4.13 Fel cwestiwn 19, uchod, nodwyd ei bod yn anodd didoli gwastraff ar drenau, mewn digwyddiadau cyhoeddus ac ym "mlaen y tŷ" mewn sefydliadau arlwy, gyda'r busnesau yn tynnu sylw at y ffaith nad oes ganddynt reolaeth dros yr hyn mae aelodau o'r cyhoedd yn ei roi yn y biniau.
- 4.14 Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr bod angen i ofynion cynllunio awdurdodau lleol gynnwys gofod digonol ar gyfer ailgylchu gwastraff yn yr eiddo. Dywedwyd hefyd y bydd anawsterau'n codi o ran deunyddiau cyfansawdd ac ar gyfer busnesau lle mae cyfrinachedd yn fater y mae angen ei ystyried.

Cwestiwn 21: Ydych chi'n cytuno â'r deunyddiau rydym yn cynnig eu gwahardd o safleoedd tirlenwi neu ynni o gyfleusterau gwastraff? A oes yna unrhyw ddeunyddiau eraill y dylid eu gwahardd o safleoedd tirlenwi neu ynni o gyfleusterau gwastraff? Os oes, beth yw'r rhain?

- 4.15 Dywedodd 41 o'r ymatebwyr (70% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cytuno â'r rhestr o ddeunyddiau sy'n cael eu cynnig. Roedd y pryder mwyaf cyffredin yn ymwneud â gorfodi unrhyw waharddiad. Dywedodd sawl un bod y rhan fwyaf o lwythau gwastraff gweddillol yn cynnwys rhywfaint o'r deunyddiau y cynigir eu gwahardd, ac y byddai'n amhosibl sicrhau bod gwastraff gweddillol yn rhydd rhag unrhyw fath o halogi. Byddai hyn yn arwain at anawsterau monitro i'r gweithredwr, y rheoleiddiwr a'r casglwr gwastraff (boed yn breifat neu'n Awdurdod Lleol). Roedd pryderon y gallai lefelau annerbyniol o halogiad gwastraff gweddillol olygu bod angen didoli'r gwastraff hwnnw cyn cyrraedd safleoedd troi gwastraff yn ynni neu dirlenwi, er mwyn sicrhau lefelau halogi digon isel, ac y gallai hynny gynyddu costau gwasanaethau casglu gwastraff.

- 4.16 Roedd rhai ymatebion o'r diwydiant gwastraff yn cwestiynu'r angen i gyflwyno gwaharddiadau o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi, gan eu bod yn teimlo bod digon o bolisiau ac ysgogiad economaidd eisoes yn bod. Roeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn ychwanegu baich sylweddol o ran rheoleiddio, gydag ychydig o fanteision i'r amgylchedd, os o gwbl. Dywedwyd hefyd y dylai'r un dyletswyddau fod yn berthnasol i gyfleusterau treulio anaerobig a biomas.
- 4.17 Codwyd rhai pryderon y byddai newid gwerth caloriffig gwastraff gweddillol drwy dynnu deunydd eildro o'r ffrwd wastraff yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd a hyfywedd gwaith troi gwastraff yn ynni. Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr bod perygl y byddai gwastraff yn cael ei symud dros y ffin o Gymru i Loegr, lle nad oes unrhyw gynnig ar hyn o bryd i gyflwyno gwaharddiadau mewn safleoedd troi gwastraff yn ynni a thirlenwi.
- 4.18 Dywedodd awdurdodau lleol bod angen rhagdybiaeth glir bod gwastraff gweddillol o gasgliadau'r Awdurdodau Lleol wrth garreg y drws yn cael ei dderbyn mewn cyfleusterau gwastraff gweddillol.
- 4.19 Dywedwyd nad oedd yn glir beth oedd lefel y risg a'r cyfrifoldeb a fyddai'n syrthio ar weithredwyr a chlodwyr/casglwyr gwastraff a chwmnïau sy'n anfon gwastraff i safleoedd troi gwastraff yn ynni, a bod y cynnig o bosib yn cosbi gweithredwyr cyfleusterau sydd ag ychydig o reolaeth os o gwbl dros ansawdd y cynnyrch sy'n cyrraedd atynt.
- 4.20 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo na ddylid cynnwys rhagor o ddeunyddiau yn y gofynion. Cynigiodd yr ymatebwyr y dylid eithrio sawl deunydd arall rhag gwaharddiad o safleoedd troi gwastraff yn ynni:
- Papur a cherdyn o ansawdd isel sy'n anaddas ar gyfer ei ailgylchu;
 - Deunydd y gellir ei adfer ar ôl llosgi;
 - Gwastraff pren - teimlwyd y byddai'n anodd cael gwared ohono o'r ffrwd gyflenwi, y gall fod yn anodd cadarnhau a yw'r pren wedi'i drin ai peidio, ac y byddai tipyn o bren heb ei drin yn anaddas i'w ailgylchu;
 - Plastig wedi'i halogi.
- 4.21 Cynigiodd rhai o'r ymatebwyr ddeunyddiau ychwanegol, gan gynnwys tecstilïau ail law, slwtsh carthion, plastig caled, cyfarpar trydanol ac electronig, gwastraff peryglus a gwastraff gwyrdd.
- 4.22 Awgrymwyd hefyd bod y rhestr o ddeunyddiau yn rhy syml, gan fod nifer o wahanol fathau o bapur, plastig, cerdyn a phren i'w cael, pob un â marchnad wahanol a fydd yn amrywio dros gyfnod o amser. Byddai hyn yn effeithio ar hyfywedd ailgylchu.
- 4.23 Awgrymwyd y dylid cadw safleoedd troi gwastraff yn ynni a thirlenwi wrth gefn ar gyfer gwaredu deunyddiau lle nad oes marchnad ar gael, cyfnodau pan fo problemau mewn cyfleusterau ailgylchu a allai arwain at bentyrru, neu os yw'r deunydd wedi'i halogi ac felly'n anaddas ar gyfer ei ailgylchu.

Cwestiwn 22: Ydych chi'n cytuno bod datblygu canllaw ar lefelau derbyniol o halogiad mewn gwastraff gweddilliol ar gyfer safleoedd tirlenwi/gweithredwyr llosgyddion a'r rheoleiddiwr yn ddull ymarferol? Os nad ydy, pa ddull arall y gallwn ei fabwysiadu?

- 4.24 Dywedodd 38 o'r ymatebwyr (76% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig. Y pryder a fynegwyd amlaf oedd y byddai'n llafurus ac yn anymarferol archwilio'r llwythau yn y cyfleusterau eu hunain, gan y byddai'n anodd naill ai rheoli lefelau halogi mewn gwastraff sy'n cyrraedd safleoedd tirlenwi a throi gwastraff yn ynni, neu archwilio'r gwastraff yn ddigonol wrth iddo gyrraedd. Byddai hefyd yn anodd iawn i'r rhai sy'n anfon gwastraff i'r cyfleusterau hyn sicrhau bod y gwastraff gweddillol yn rhydd rhag halogion. O ganlyniad byddai'n anodd datblygu canllawiau ymarferol.
- 4.25 Roedd rhai yn mynegi pryder ynghylch goblygiadau iechyd a diogelwch gofyn i staff mewn cyfleusterau tirlenwi a throi gwastraff yn ynni archwilio llwythau. Hefyd roedd pryder y byddai archwilio gwastraff o flaen llaw, cyn ei anfon i safleoedd tirlenwi neu droi gwastraff yn ynni o bosib yn creu problemau ac yn ddrud.
- 4.26 Roedd rhai yn teimlo mai'r unig ffordd o ddatblygu canllawiau ymarferol oedd drwy gydweithio gyda gweithredwyr y cyfleusterau. Dywedwyd y byddai'n rhaid i'r canllawiau ddiffinio lefelau halogi derbyniol. Awgrymodd rhai y gellid seilio hyn ar ganrannau.
- 4.27 Awgrym arall oedd y dylai gweithredwyr cyfleusterau gwastraff gweddillol fod yn gyfrifol am sicrhau bod cynhyrchydd y gwastraff wedi gosod mesurau priodol yn eu lle i ddioli gwastraff lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol gwneud hynny. Cynigiwyd dull gweithredu arall, tebyg sef ailgylchu gymaint ag sy'n bosibl yn gynharach ar hyd y gadwyn, a chaniatáu i'r gwastraff gweddillol gael ei anfon i'r safleoedd tirlenwi neu droi gwastraff yn ynni. Er mwyn lleihau lefel halogi deunydd eildro ac ailgylchu gymaint â phosib, awgrymwyd ei bod yn hanfodol gwahanu gwastraff bwyd.

Cwestiwn 23: Ydych chi'n cytuno y dylid gwahardd yr arfer o gael gwared ar wastraff bwyd mewn carthffosydd? Os ydw, a ddylai fod yn berthnasol i: i) cartrefi ii) busnesau a'r sector cyhoeddus neu iii) y ddau?

- 4.28 Dywedodd 41 o'r ymatebwyr (76% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cytuno â'r gwaharddiad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i fusnesau, y sector cyhoeddus a chartrefi.

- 4.29 Dywedodd rhai y dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i bob sector er mwyn cael y swm mwyaf posibl o wastraff ar gyfer treulio anaerobig, a gwella hyfywedd economaidd y sector cyfan. Dylai'r rheoliadau hefyd wahardd prosesu gwastraff bwyd ar safleoedd lle mae mwy na'r lleiafswm posibl o ddeunydd organig yn cael ei anfon i'r draen. Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod cymaint â phosib o wastraff bwyd yn cyrraedd y cyfleusterau treulio anaerobig er mwyn cynhyrchu'r swm mwyaf posibl o ynni.
- 4.30 Codwyd pryderon ynghylch y cynnig mewn tri phrif faes. Yn gyntaf, anawsterau rheoleiddio a gorfodi gwaharddiad, yn arbennig ar gyfer aelwydydd. Nodwyd bod rhwystrau deddfwriaethol ac ymarferol, ac y byddai'n anymarferol ac yn ddud ei orfodi. Yn ail, roedd cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu a chyflenwi offer sy'n trin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffosydd yn dweud bod diffygion yn y dystiolaeth sy'n ategu'r cynnig, yn arbennig o ran y drafodaeth gyda'r sector gwasanaeth bwyd a'r amcangyfrifon o'r costau i'r sector lletygarwch o gael casgliadau gwastraff bwyd ar wahân, o'i gymharu â gwaredu i garthffosydd.
- 4.31 Yn drydydd, credai rhai ymatebwyr fod angen amrywiol ddulliau er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithlon, gan gynnwys gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd drwy falwyr gwastraff bwyd a threulwyr. Cyfeiriodd un ymatebwr yn ogystal at effaith bosibl y cynnig penodol hwn ar ei ffurf bresennol ar fusnesau yng Nghymru. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at waith ymchwil, gan nodi bod malwyr gwastraff bwyd yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn gwledydd eraill, ac nad ydynt yn cyfrannu at y broblem o flocio carthffosydd. Roeddent yn ystyried bod lle i ddefnyddio malwyr gwastraff bwyd wrth sicrhau lefelau effeithiol o ailgylchu bwyd dan amgylchiadau penodol, megis mewn ardaloedd gwledig, pellennig lle mae amrywiol gasgliadau unigol wrth ochr y ffordd yn aneffeithiol, ac mewn busnesau bach ar y stryd fawr lle nad oes cyfleusterau i storio gwastraff bwyd yn ddiogel ac yn lân.
- 4.32 Hefyd dywedwyd bod lle i'w defnyddio mewn sefydliadau fel ysbytai, eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn a charchardai, lle bo materion penodol yn codi o ran iechyd a diogelwch. Dywedwyd y byddai ei gwneud yn ofynnol i wastraff bwyd gael ei ddioli a'i gasglu ar wahân mewn sefydliadau mwy, i'w drin mewn ffordd wahanol, yn llafurus ac yn gofyn am fuddsoddi cryn dipyn o adnoddau.
- 4.33 Cafwyd rhai ymholiadau ynghylch diffiniad "bwyd", er enghraifft a oedd hyn yn cynnwys gwastraff hylifol, fel llaeth. Dywedwyd y byddai hyn yn achosi problemau ar gyfer busnesau trin gwastraff bwyd nad oeddent wedi paratoi i dderbyn gwastraff hylifol.

Cwestiwn 24: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y gellir gorfodi gwaharddiad o'r fath gyda i) busnesau a'r sector cyhoeddus ii) cartrefi?

- 4.34 Fel yr ymatebion i gwestiwn 23, codwyd materion yn ymwneud ag ymarferoldeb a chostau rheoleiddio gwaharddiad mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, yn arbennig mewn perthynas â chartrefi.
- 4.35 Ymysg y ffyrdd a gynigiwyd o atal gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd, roedd awgrym i wahardd gosod malwyr gwastraff bwyd mewn eiddo yn y dyfodol, naill ai drwy'r system gynllunio neu drwy reoliadau adeiladu. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys defnyddio system caniatáu elifion masnach (ar gyfer busnesau a'r sector cyhoeddus) neu ei gwneud yn ofynnol i bob safle lletygarwch gael gwasanaethau casglu gwastraff bwyd.
- 4.36 Roedd rhai o'r bobl a ymatebodd yn cefnogi nod y cynnig, ond yn teimlo nad deddfwriaeth oedd y ffordd gywir i'w gyflawni. Ymysg y ffyrdd eraill o atal gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd a gafodd eu cynnig roedd y canlynol:
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth er mwyn i fusnesau ddeall problemau gwaredu i garthffosydd a manteision casgliadau bwyd ar wahân;
 - Ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus fel ymddiriedolaethau GIG gael contractau casglu gwastraff bwyd gydag Awdurdodau Lleol;
 - Ar gyfer cyrff sector cyhoeddus, edrych ar opsiynau i reoli neu osgoi gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd, er enghraifft drwy gynllun achrediad amgylcheddol y corff neu ei lythyr cylch gorchwyl;
 - Gweithio gydag ymgymerydd carthffosiaeth i adolygu'r taliadau am ollwng gwastraff bwyd er mwyn annog pobl i beidio â gwaredu i garthffosydd;
 - Defnyddio rheolau rhwymo cyffredinol i'w gwneud yn ofynnol i osod mesurau mewn ceginau - er enghraifft trapiau saim;
 - Gosod dyletswydd datblygu cynaliadwy ar gyrrff cyhoeddus i ddarparu sylfaen deddfwriaethol gref ar gyfer arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy gan y sector cyhoeddus;
 - Ei gwneud yn ofynnol i fusnesau wneud datganiad eu hunain yn dweud nad ydynt yn gollwng gwastraff bwyd i garthffosydd.

Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno bod yr amseroedd arwain ar gyfer y cynigion yn rhesymol?

- 4.37 Dywedodd 22 o'r ymatebwyr (56% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cytuno â'r cyfnodau cyn gweithredu.
- 4.38 Roedd rhai yn awgrymu cyfnodau hwy gan ddweud bod angen hynny er mwyn cyd-fynd â'r gofynion sy'n cael eu gosod ar Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru, yn benodol y targedau Ailgyrchu Statudol a osodwyd dan Fesur

Gwastraff (Cymru) 2010. Byddai cyfnodau hwy hefyd yn caniatáu amser i ddatblygu marchnadoedd a seilwaith ac yn gyfle i sefydliadau fel y GIG, sydd ar hyn o bryd â rhywfaint o wastraff yn cael ei gasglu ar wahân a rhywfaint yn cael ei waredu i garthffosydd drwy danciau malu, newid eu gweithdrefnau. Cydnabuwyd hefyd bod peiriannau malu gwastraff yn para am tua 10 mlynedd, a bod gwaredu neu ailgylchu peiriant sy'n dal i fod yn weithredol yn anghynladwy.

- 4.39 Dywedodd eraill bod 2017 yn rhy fuan i osod gwaharddiadau safleoedd tirlenwi a throi gwastraff yn ynni, gydag un sylw y dylai gwaharddiadau tirlenwi ddod o leiaf dair blynedd cyn gwaharddiadau llosgi er mwyn caniatáu i'r farchnad addasu ac i ddatblygu'r gallu i brosesu. Dywedodd eraill y dylid symud ymlaen i wahanu gwastraff yn y ffynhonnell a chael casgliadau ar wahân cyn cyflwyno gwaharddiadau, a bod angen cyhoeddi canllawiau cyn cyflwyno unrhyw waharddiad er mwyn i'r rhai sy'n cael eu heffeithio asesu effaith y cynigion o ran gorfodaeth, yn economaidd ac yn ymarferol.

Cwestiwn 26: Ydych chi'n cytuno mai CNC yw'r sefydliad gorau i reoleiddio'r ddyletswydd i wahanu gwahanol fathau o wastraff? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rheswm a chynnig corff rheoleiddio arall.

- 4.40 Dywedodd 39 o'r ymatebwyr (91% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno mai CNC yw'r corff priodol i reoleiddio'r ddyletswydd. Mynegwyd rhai pryderon na fyddai gan CNC ddigon o adnoddau neu brofiad ymarferol i reoleiddio'r gofynion yn ddigonol, neu y byddai angen dargyfeirio adnoddau o ddyletswyddau eraill er mwyn gwneud hynny.
- 4.41 Cafwyd awgrym y dylai'r gofynion gael eu rheoleiddio gan awdurdodau lleol, neu y dylai CNC reoleiddio ar y cyd gydag awdurdodau lleol (ac o bosib gyda'r trydydd sector hefyd), gan ddefnyddio protocol i'w gwneud yn glir pa gorff sy'n gyfrifol mewn gwahanol achosion. Roedd rhai yn teimlo mai dull gweithredu gwirfoddol oedd yn briodol o ran gwahanu yn y ffynhonnell.
- 4.42 Dywedodd CNC eu bod yn disgwyl gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu manylion a chanllawiau unrhyw drefniadau, a'u bod yn croesawu unrhyw drafodaeth bellach ynghylch gorfodi'r rheoliadau hyn, gan dynnu sylw at y ffaith nad oes ganddynt statws rheoleidiol cryf ar hyn o bryd i archwilio eiddo. Dywedwyd hefyd eu bod am weld unrhyw ddyletswydd sy'n cael ei gosod ar CNC yn cael ei hystyried yng nghyd-destun trafodaeth ehangach ar briod swyddogaethau'r rhai sy'n casglu gwastraff o eiddo, boed yn gyrff sector preifat neu sector cyhoeddus.

Cwestiwn 27: Yn eich barn chi, pa gorff yw'r un mwyaf addas i reoleiddio'r gwaharddiadau ar waredu gwastraff bwyd mewn carthffosydd ar gyfer busnesau a'r sector cyhoeddus: CNC, Awdurdodau Lleol, ymgwymerwr carthffosiaeth neu arall.

- 4.43 Ymateb cymysg a gafwyd i'r cwestiwn hwn, gyda'r ymatebwyr yn cynnig gwahanol gyfuniadau o'r cyrff uchod yn ogystal â chynnig cyrff unigol eraill.
- 4.44 Ymysg yr awgrymiadau ar gyfer awdurdodau lleol roedd y posibilrwydd o ddefnyddio rheoliadau adeiladu i wahardd gosod malwyr gwastraff a defnyddio archwilwyr awdurdodau lleol i reoleiddio gwaredu gwastraff bwyd mewn safleoedd bwyd. Mynegwyd pryderon gan awdurdodau lleol na fyddai ganddynt ddigon o adnoddau pe bai dyletswydd o'r fath yn cael ei gosod arnynt.
- 4.45 Dywedodd CNC bod bron pob un o garthffosydd Cymru (domestig a masnachol) dan berchnogaeth ymgwymerwyr carthffosiaeth statudol, ac yn cael eu gweithredu ganddynt. Felly yn y rhan fwyaf o achosion, byddai effaith unrhyw weithgaredd anghyfreithlon o ran gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd yn fater ar gyfer rheolaeth asedau'r cwmni ei hun o ddydd i ddydd. Ar y sail honno, nid oedd CNC yn credu mai nhw oedd y corff gorau i reoleiddio hyn.
- 4.46 Awgrymodd eraill mai'r cwmnïau dŵr o bosib fyddai'r rheoleiddwyr mwyaf priodol ar gyfer safleoedd masnachol. Dywedodd rhai y gellid cyflawni'r swyddogaeth hon mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a allai archwilio ar ran cwmnïau dŵr a darparu gwybodaeth ynghylch opsiynau eraill ar ffyrdd o waredu.

Cwestiwn 28: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith y cynigion hyn (er enghraifft, yr effeithiau ar eich sefydliad chi)?

- 4.47 Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai'n hanfodol datblygu marchnadoedd amgen ar gyfer deunyddiau wedi'u hailgylchu a seilwaith ailbrosesu er mwyn sicrhau na fydd deunyddiau'n pentyrru, ac i sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o ddeunyddiau'n cael eu hallforio ac i leihau'r perygl o weld tipio anghyfreithlon.
- 4.48 Dywedodd yr ymatebwyr y gallai'r cynigion effeithio'n negyddol ar gasgliadau ailgylchu awdurdodau lleol, a rhoi mwy o straen ar gyllidebau awdurdodau lleol ar adeg pan fo arian yn dynn. Dywedodd CNC y byddai baich gorfodi sylweddol newydd yn dod i'w rhan, ac nad oedd y Papur Gwyn yn ei gwneud yn glir sut y byddai'n cael ei ariannu. Awgrymwyd y gallai'r cynigion arwain at gostau neu ofynion gofod ychwanegol i rai busnesau. Hefyd dywedwyd y gallai problemau yn ymwneud â llwythi halogedig arwain at godi ffioedd uwch i ddefnyddio cyfleusterau tirlenwi a throi gwastraff yn ynni. Yn gyffredinol, teimlwyd y dylid cynnal dadansoddiad pellach o gost a budd, er mwyn asesu effaith y cynigion ar sefydliadau sy'n cael eu heffeithio.

- 4.49 Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai angen cymorth, addysg a gweithgareddau newid ymddygiad i gyd-fynd â'r cynigion.

Cwestiwn 29: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru er mwyn iddynt allu, drwy reoliadau, pennu isafswm taliadau ar gyfer mathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro?

- 4.50 Dywedodd 39 o'r ymatebwyr (83% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r cynigion. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y tâl am fagiau siopa untro yn gweithio'n dda, ac y dylai unrhyw ymgais i ddiwygio'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro gael ei seilio ar dystiolaeth glir a gwerthusiad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod y ffaith nad oes llawer o wahaniaeth rhwng pris bag siopa untro a bag plastig aml dro 'bag am oes' o bosib yn arwain at beidio aildddefnyddio 'bag am oes', a'i ystyried yn hytrach fel bag siopa untro 'gwell'.
- 4.51 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod gwaredu bagiau plastig aml dro mewn ffordd amhriodol yn arwain at effeithiau negyddol i'r amgylchedd. Roedd un awdurdod lleol yn rhoi'r enghraifft o bobl yn defnyddio'r math hwn o fag i ddal deunydd ailgylchu, gan arwain o ganlyniad at leihau effeithlonrwydd cynllun ailgylchu awdurdod lleol.
- 4.52 Codwyd pryderon gan rai busnesau a chymdeithasau manwerthu ynghylch y baich ychwanegol posibl pe bai isafswm taliad yn cael ei osod ar fagiau am oes. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai costau ychwanegol gael eu hysgwyddo drwy addasu seilwaith TG a hyfforddi staff ymhellach. Hefyd mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar siopa yn ôl mympwy ac ynghylch 'ail-gyflwyno' bagiau untro o bosib mewn rhai siopau.
- 4.53 Yn yr un modd, er bod mwyafrif yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig, mynegwyd pryder ynghylch y baich ychwanegol a allai godi pe bai lleiafswm tâl yn cael ei osod ar fagiau am oes. Y teimlad cyffredinol oedd y byddai angen rhagor o adnoddau i helpu awdurdodau lleol gyda'r costau cyfathrebu ychwanegol yn ogystal â chostau yn codi o ddiwygio'r canllawiau presennol a rhoi'r tâl ar waith yn gyffredinol.

Cwestiwn 30: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru er mwyn iddynt allu, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr drosglwyddo eu helw net i unrhyw achosion da?

- 4.54 Roedd 33 o'r ymatebwyr (66%) a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno y dylid caniatáu trosglwyddo elw net i unrhyw achosion da. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r cynnig, er bod nifer o randdeiliaid pwysig yn anghytuno â'r cynnig.

- 4.55 Roedd nifer o fusnesau a chymdeithasau manwerthu yn tynnu sylw at fanteision adeiladu perthynas gydag achosion da lleol, a 'rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned leol', ond hefyd yn dweud bod cytundeb gwirfoddol yn well na rheoliadau. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen diffiniad clir o 'achos da' ac y dylai'r system fod yn atebol.
- 4.56 Mae'n amlwg wrth weld rhai o'r ymatebion bod nifer o'r ymatebwyr wedi camddeall y cynnig. Y cynnig oedd ymestyn y pwerau presennol dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 er mwyn gallu rhoi elw net y tâl am fagiau siopa untro i unrhyw fath o achos da, yn hytrach nag un amgylcheddol yn unig. Nid oedd y cynnig yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo manwerthwyr i gyfrannu eu helw net, gan fod y pŵer hwn eisoes ar gael i Weinidogion Cymru dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, er nad yw'n cael ei ddefnyddio.
- 4.57 Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd y cytundeb gwirfoddol.

Cwestiwn 31: A oes gennych unrhyw sylwadau ar effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad chi)?

- 4.58 Roedd y sylwadau ychwanegol a ddaeth dan y cwestiwn hwn yn cynnwys cais ar i awdurdodau lleol Cymru gael caniatâd i dderbyn elw net o'r tâl, ac y dylid adolygu'r gofynion adrodd presennol ar gyfer busnesau bach dan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010. Awgrymwyd bod angen gorfodaeth gymesur ac o bosib bod angen adnoddau ychwanegol er mwyn ategu'r gwaith o weithredu'r cynnig. Sylwadau eraill oedd y dylai bagiau siopa untro ail-law barhau i gael eu dosbarthu'n rhad ac am ddim, ac na ddylid eithrio bagiau plastig biddiraddadwy o'r taliad.

Pennod 5: Hwyluso Rheoli Doethach

Cwestiwn 32 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer Trwyddedu Morol?

5.1 Roedd 22 o'r ymatebwyr (88% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r newidiadau a gynigiwyd i'r pwerau codi tâl am drwydded forol. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r cynigion. Roedd sawl ymateb yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ffioedd sy'n cael eu codi am drwyddedau morol yn cael eu hadlewyrchu yn ansawdd a safon cyflawni'r system trwyddedau morol. Roedd yr ymatebwyr yn awgrymu pe bai lefelau'r taliadau'n codi y dylid sicrhau bod digon o adnoddau ac arbenigedd ar gael gan y rheoleiddiwr. Dylai'r rheoleiddiwr fedru dangos gwerth am arian ar gyfer trefn sy'n codi tâl. Rhaid cynnal gwaith trwyddedu morol mewn ffordd effeithiol ac i ansawdd uchel, gan ganolbwyntio ar welliannau parhaus i ddarpariaeth y gwasanaeth. Nodwyd manteision posibl pwerau codi tâl ychwanegol ar gyfer trwyddedau morol, fel a ganlyn:

- Bydd y pŵer i adennill costau monitro ar ôl cael caniatâd yn golygu bod modd rhoi trwyddedau hwy, drwy gynnwys amodau i fonitro effeithiau ar yr amgylchedd a dileu'r angen i ailgyflwyno ceisiadau am drwydded yn fwy rheolaidd;
- Bydd y pwerau i adennill costau ar gyfer amrywiaethau yn fanteisiol i ddeiliaid y drwydded gan ddileu'r angen i ailgyflwyno cais o'r newydd, pan fo angen newidiadau sydd y tu allan i gwmpas y cais gwreiddiol;
- Drwy godi tâl am gyngor cyn gwneud cais, bydd mwy o amser ar gael i helpu'r cwsmer ar ran flaen, bwysicaf y broses.

5.2 Er yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor, roedd rhai o'r ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl trwyddedau morol, a'r diwygiadau i'r pwerau codi tâl, ar fusnesau bach a gweithgareddau ar raddfa fach. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda CNC i sicrhau bod yr adolygiad ffioedd yn ystyried barn pob un o'r rhanddeiliaid trwyddedau morol.

Cwestiwn 33: A ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn gallu CNC i adfer costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol drwy godi ffioedd am:

- costau cyn cyflwyno cais?**
- costau amrywio?**
- costau trosglwyddo trwyddedau?**
- tal costau rheoleiddio, drwy daliadau cynhaliaeth?**

Cwestiwn 34: A oes gennych unrhyw sylwadau ar effaith y cynigion?

- 5.3 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod angen cysondeb mewn ffioedd trwyddedau morol ar draws y DU.
- 5.4 Dywedodd yr ymatebwyr bod angen canllawiau clir ar yr hyn y mae'r cam cyn-ymgeisio yn ei gynnwys. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda CNC i sicrhau bod yr adolygiad ffioedd yn ystyried barn pob un o'r rhanddeiliaid trwyddedau morol, ac yn sicrhau bod canllawiau'n cael eu darparu, lle bo'r gofyn, ar gwmpas 'cyn ymgeisio'.
- 5.5 Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i gyflwyno taliadau ar gyfer costau rheoleiddio drwy daliadau cynhaliaeth (er enghraifft, mewn perthynas â chostau'r rheoleiddiwr wrth ystyried adroddiadau monitro) tynnwyd sylw gan rai at bwysigrwydd sicrhau bod gofynion monitro trwydded forol yn briodol ac yn gymesur. Dylid sefydlu canllawiau clir ar ddefnydd taliadau cynhaliaeth.

Cwestiwn 35: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn?

- 5.6 Roedd 14 o'r ymatebwyr (88%) a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno â'r cynnig ynghylch Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynnig am fwy o bwerau gorfodi er mwyn herio gweithgareddau niweidiol, sy'n torri cydymffurfiaeth. Roedd ambell un yn tynnu sylw at newidiadau posibl eraill i'r drefn Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa.
- 5.7 Mynegodd rhai bryder ynghylch effaith y cynigion ar y diwydiant pysgodfeydd cregyn, yn arbennig y pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu a diwygio'r Cynlluniau Rheoli, y gallu i ofyn am gydymffurfiaeth â'r cynlluniau hynny, a'r gallu (os oes angen) i ddiwygio Gorchmyn yn unochrog er mwyn osgoi difrod i Safleoedd Morol Ewropeaidd. Roedd rhai yn teimlo y gallai hyn arwain at ddirywiad yn y buddsoddiad mewn pysgodfeydd, yn sgil pryderon cynyddol ynghylch diogelwch deiliadaeth. Fodd bynnag, roedd sawl ymateb hefyd yn nodi bod y cynnig i gyflwyno cynlluniau rheoli gorfodadwy wrth ochr y gorchmynion pysgodfeydd eu hunain yn ffordd o sicrhau mwy o gadernid a thryloywder yn y broses o wneud cais am Orchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa, ac yn hwyluso'r broses o wneud gorchmynion pysgodfeydd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yr UE.
- 5.8 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylai swyddogion gorfodi Llywodraeth Cymru gael pwerau llawn fel Swyddogion Gorfodi Morol dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 er mwyn gorfodi Deddf 1967 os yw granti yn gweithredu y tu hwnt i derfynau'r Gorchmyn.

Cwestiwn 36 - A oes unrhyw newidiadau eraill i'r system Gorchymyn Pysgodfa Unigol a Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa y dylid eu hystyried yn eich barn chi (h.y. alwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd eraill o wella arferion presennol)?

- 5.9 Nodwyd y gallai rhai newidiadau ategol i'r broses ymgeisio helpu i hwyluso'r drefn o ymgeisio am Orchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys canllawiau manwl i ymgeiswyr wrth lenwi ffurflenni cais, gan gynnwys cynlluniau rheoli. Gallai datblygu dogfennau profforma helpu i annog cysondeb a safoni ceisiadau sy'n dod i law, a helpu gyda'r asesiad amgylcheddol perthnasol.

Cwestiwn 37: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith y cynnig hwn (er enghraifft, effeithiau ar eich busnes chi)?

- 5.10 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn nodi y bydd y cynigion yn rhoi fframwaith cliriach o ran y gyfraith a gweithdrefnau er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol posibl y gorchymynion pysgodfeydd arfaethedig, a sut y gellid eu lleddfu a'u rheoli. Dywedodd CNC bod y cynigion yn debyg o gael effaith gadarnhaol o ran yr ymwneud â Llywodraeth Cymru ac ymgeiswyr am orchmynion pysgodfeydd. Fodd bynnag, mynegodd eraill bryder y gallai'r cynigion arwain at ddirywiad mewn buddsoddiad, a chrebachu'r diwydiant, gan y byddai buddsoddiad pellach yn annhebygol yn sgil y pryderon cynyddol am ddiogelwch deiliadaeth.

Cwestiwn 38: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â'r newidiadau i Adran 29 Deddf Draenio Tir (1991)?

- 5.11 Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r cynnig i ddiwygio Adran 29 o Ddeddf Draenio Tir (1991) yn gadarnhaol tu hwnt; o'r 24 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn roedd 100% yn cytuno â'r cynnig.
- 5.12 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cydnabod bod bwlch yn y ddeddfwriaeth bresennol, a'i bod yn bwysig sicrhau bod pob ffynhonnell llifogydd yn cael ei rheoli'n briodol. Roeddent yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru neu eu hasiantwyr gael pwerau mynediad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Hefyd roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod y byddai'r cynnig yn fanteisiol i dirfeddianwyr, a bod effeithiau economaidd cadarnhaol o bosib, ac y byddai'n helpu i wella'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rheoli draenio dŵr. Cafwyd un ymateb yn dweud nad oedd y dull gweithredu i'w weld yn unol â'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

Cwestiwn 39: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â'r newidiadau i Adran 47 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)?

- 5.13 Roedd 22 o'r ymatebwyr (92%) a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno â'r cynnig ynghylch Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010). Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol ac yn gweld y cynnig fel ffordd o symleiddio'r broses, gan ei gwneud yn haws cydgrynhai deddfwriaeth yn y dyfodol, a thrwy hyn helpu i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.
- 5.14 Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod angen ystyried yn ofalus goblygiadau posibl Bil cydgrynhai yn y dyfodol. Byddai angen cynnal asesiad trylwyr o'r costau a'r manteision er mwyn mesur effeithiau'r newidiadau arfaethedig yn gywir. Dywedodd Awdurdodau Lleol yn benodol bod angen asesiad tryloyw o unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi o'r diwygiadau hyn.
- 5.15 Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch diwygio'r deddfwriaeth sylfaenol drwy Orchymyn, ac y byddai hyn yn golygu nad oedd y gwaith craffu mor gadarn ac nad oedd cymaint o atebolrwydd democrataidd, yn ogystal â'r angen am ymgynghoriad cyhoeddus trylwyr a thryloyw. Ar y cyfan roedd cefnogaeth i symud ymlaen â deddfwriaeth sylfaenol newydd o ran cydgrynhai'r Deddfau Dŵr.

Pennod 6: Gweithredu

Cwestiwn 41: Rydym eisiau sicrhau bod Bil yr Amgylchedd yn adlewyrchu anghenion Dinasyddion Cymru. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ar unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn a allai gael effaith ar a) Hawliau Dynol b) yr iaith Gymraeg neu c) y nodweddion gwarchoddedig sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys cenedl; oedran; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywiol; priodas neu Bartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; ac anabled.

- 6.1 Tynnwyd sylw at nifer o brif themâu mewn perthynas ag anghenion dinasyddion Cymru.
- 6.2 Dywedodd rhai bod y cynigion yn effeithio o bosib ar hawliau dynol, lle bo hawliau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth. Ymysg yr enghreifftiau a ddarparwyd roedd trwyddedau llosgi neu orchmynion pysgodfeydd cregyn.
- 6.3 Dywedwyd mai ychydig o gyfeiriad oedd at gymunedau lleol neu faterion diwylliannol yn y Papur Gwyn. Soniodd rhai am bwysigrwydd cysylltiad agos â'r trydydd sector a chynrychiolwyr o'r gymuned leol wrth symud ymlaen â'r dull gweithredu hwn ar sail ardal. Roedd rhai yn tynnu sylw at wahaniaethau effeithiau'r cynigion gwahanu gwastraff mewn perthynas â chymunedau gwledig.
- 6.4 Dywedwyd y dylid ystyried y Gymraeg wrth symud ymlaen â'r cynigion. Er enghraifft, bydd angen ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau "...y ceir y manteision mwyaf posibl yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn y presennol a'r dyfodol." Awgrymwyd y dylid cynnwys datganiad yn y Bil yn dweud y dylid ystyried y Gymraeg. Gallai hyn fod yn debyg i'r datganiad y mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ei roi ynghylch y ffordd yr ystyriwyd anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth lunio cynllun, a'r ffordd y mae unrhyw bolisiau ar y Gymraeg yn gweithio gyda pholisiau eraill dan yr un cynllun. Hefyd dylid ystyried y Gymraeg dan y gofyniad ar i gyrff eraill gydweithio mewn dull gweithredu ar sail ardal, er mwyn sicrhau bod y cyrff hynny'n gweithredu'n unol â chynllun iaith Gymraeg gyfredol CNC.

Cwestiwn 42: A oes gan yr ymgylchreion unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

- 6.5 Daeth amrywiol sylwadau i law, nifer ohonynt yn cael eu hadlewyrchu'n fwy cyffredinol lle bo'n briodol ar draws yr adroddiad. Ceir crynodeb o'r sylwadau pwysig isod:
- 6.6 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl bod diffyg ffocws cyffredinol yn y Papur Gwyn ar fioamrywiaeth. Dylai'r dull gweithredu ar sail ardal adeiladu ar arfer da sydd eisoes yn bodoli mewn cadwraeth bioamrywiaeth, a gellid defnyddio targedau bioamrywiaeth presennol fel dangosyddion perfformiad yn y polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Hefyd enwyd Partneriaethau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fel partneriaid pwysig wrth ddatblygu datganiadau ardal.
- 6.7 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y berthynas hanfodol rhwng Bil yr Amgylchedd a deddfau eraill sy'n cael eu cynnig, yn arbennig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch y ffordd y bydd y ddeddfwriaeth yn gweithio'n ymarferol fel pecyn integredig. Hefyd sylwyd bod cyfeiriad cyson at Fyrddau Gwasanaethau Lleol, ond y dylid rhoi rhagor o bwys ar swyddogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 6.8 Dywedwyd yn arbennig bod angen mwy o bwyslais ar bwysigrwydd coetiroedd i amgylchedd Cymru, a'r angen i alinio'r cynigion yn agos at amaethyddiaeth a'r Cynllun Datblygu Gwledig.
- 6.9 Thema a gododd yn gyson oedd yr angen am gymryd rhan mewn dull ar sail ardal, ac yn arbennig swyddogaeth y trydydd sector, grwpiau cymunedol a gwerth cysylltu â dinasyddion.
- 6.10 Roedd rhai galwadau am ragor o fanylion ynghylch rhai o'r cynigion, a chyhoeddi Bil drafft. Dywedodd rhai bod y Papur Gwyn yn hir, yn aneglur ar brydiau ac yn anodd ymdrin ag ef; ond roedd eraill yn croesawu'r ddogfen gan ddweud ei bod yn glir ac wedi'i strwythuro mewn ffordd dda. Nodwyd y dylai'r ymatebion a ddaeth i law gael eu dadansoddi'n wrthrychol a'u pwysoli.